# DOGFEN FFRAMWAITH

# TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

# A

# LLYWODRAETH CYMRU

Diweddarwyd ym mis Ebrill 2026

**Cynnwys**


1. **Cyflwyniad ..........5**

2. **Egwyddorion Llywodraethu ..........6**

Cenhadaeth a diben ar y cyd 6

Cydberthnasau rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff hyd braich 7

Llywodraethiant ac atebolrwydd 7

3. **Diben Tribiwnlys Prisio Cymru ..........8**

4. **Llywodraethiant ac Atebolrwydd ..........9**

Y Cyd-destun Cyfreithiol 9

Rolau a Chyfrifoldebau 9

Cyfrifoldebau Gweinidogol ..........9
Atebolrwyddau a Chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ..........10
Atebolrwyddau a Chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ..........10
Tîm Noddi ..........11
Yr Uned Cyrff Cyhoeddus ..........12

Atebolrwyddau a Chyfrifoldebau Prif Weithredwr y Tribiwnlys 12

Cyffredinol ..........12
Atebolrwyddau i Senedd Cymru ..........13
Atebolrwydd i Lywodraeth Cymru ..........13
Cyfrifoldebau o ran Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys ..........14
Rôl y Prif Weithredwr fel y Prif Swyddog ar gyfer Achosion sy'n ymwneud â'r Ombwdsmon ..........15

Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru 15

Cyfrifoldebau ar y Cyd ..........15
Cyfrifoldebau Personol Llywyddion Tribiwnlys Prisio Cymru ..........17
Cyfrifoldebau Aelodau Unigol o'r Cyngor Llywodraethu ..........18
Presenoldeb Llywodraeth Cymru yng Nghyfarfodydd y Cyngor Llywodraethu ..........18

5. **Gofynion Cyfrifyddu ac Adrodd ..........18**

Systemau cyfrifyddu ariannol a rheoli 18

Adroddiad Blynyddol 19

6. **Trefniadau Archwilio ..........19**

Archwilio Mewnol 19

Hawl Mynediad Llywodraeth Cymru 19

7. **Trefniadau Rheoli ..........20**

Cyffredinol 20

Staffio 20

Recriwtio, cadw a rheoli staff ..........20
Telerau ac Amodau Gwasanaeth ..........21
Costau staff ..........21

Polisi Rheoli a Datblygu Staff ....................................................................22
Ymgynghori â Staff ac Undebau Llafur ....................................................22
**8. Fframwaith Cynllunio ..................................................................................22**
Cyllid a Llythyrau Cylch Gwaith 22
Cynlluniau Gweithredol 23
Cyhoeddi Cynlluniau 23
Cynllunio Cyllidebol 23
Monitro Ariannol ac Adrodd am Eithriadau 24
**9. Rheoli Perfformiad .......................................................................................24**
Gofynion Adrodd 24
Is-gwmnïau a Chyd-fentrau 25
**10. Cyllidebau Refeniw.......................................................................................25**
**Gwariant ..................................................................................................................25**
Benthyciadau, Gwarantau a Buddsoddiadau 26
Grantiau, Benthyciadau a Chontractau a roddir i Endidau eraill 27
Cyfundrefn Rheoli Cymorthdaliadau y DU 27
**11. Rheoli Cyllid ac Arian Parod ........................................................................28**
Cyllid 28
Trefniadau Bancio 29
Balansau Arian Parod - Yn ystod y flwyddyn 29
Balansau Arian Parod - Diwedd y Flwyddyn 30
Llog a Enillir ar Falansau Arian Parod a Balansau Banc 30
**12. Darbodusrwydd, Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd .................................30**
Y Sail Dystiolaeth 30
Adolygiad wedi'i Deilwra 30
**13. Atodiad A -Prif Nodau a Swyddogaethau'r Is-adran Noddi .........................32**
**14. Atodiad B – Dirprwyaethau ..........................................................................33**
**15. Atodiad C - Crynodeb o'r Gofynion o ran Cymeradwyaeth a'r Terfynau Dirprwyo ....................................................................................................................36**
**16. Atodiad D - Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu .......................................38**
**17. Atodiad E - Rhestr o Ganllawiau Corfforaethol i bob rhan o'r Llywodraeth 44**
**18. ATODIAD F - Rhestr wirio o ddogfennau y mae angen i Dribiwnlys Prisio Cymru eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru .............................................................47**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Ddogfen Fframwaith hon wedi'i llunio gan dîm Polisi a Diwygio Ardrethi Annomestig Llywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â Thribiwnlys Prisio Cymru (y Tribiwnlys). Bwriedir i'r ddogfen hon gael ei defnyddio gyda chyrff cyhoeddus sydd wedi'u dosbarthu i'r sector llywodraeth ganolog at ddibenion cyfrifon cenedlaethol neu sydd wedi'u dosbarthu, at ddibenion gweinyddol, naill ai fel Cyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru, Adrannau Anweinidogol, Asiantaethau Gweithredol neu gorff cyhoeddus arall (ac eithrio cwmnïau sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru) y pennir ei gylch gwaith gan Weinidogion Cymru.

1.2 Mae'n amlinellu'r fframwaith cyffredinol y mae'r Tribiwnlys yn gweithredu yn unol ag ef, yn nodi'r telerau ac amodau y gall Gweinidogion Cymru ddarparu adnoddau i'r Tribiwnlys oddi tanynt, ac yn diffinio rolau a chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru a'r Tribiwnlys yn ogystal â'r gydberthynas rhyngddynt.

1.3 Caiff taliadau eu gwneud i'r Tribiwnlys ar yr amod ei fod yn cyflawni'n foddhaol bob un o'i rwymedigaethau fel y'u nodir yn y Ddogfen Fframwaith hon a'r llythyr cylch gwaith ac unrhyw amodau a gofynion eraill o'r fath a osodir, o bryd i'w gilydd, gan y Gweinidog â chyfrifoldeb portffolio ("y Gweinidog") yn gweithredu yn unol ag adrannau 70 a 71(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, un o Weinidogion Cymru, yn gweithredu yn unol â swyddogaethau a roddir iddo gan adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (fel y'u diwygiwyd). Mae "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru" yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o drefniadau rheolaeth ariannol gyhoeddus yng Nghymru.

1.4 Caiff y ddogfen hon ei hadolygu ar y cyd yn ôl y gofyn gan Lywodraeth Cymru a Thribiwnlys Prisio Cymru. Dylid cynnal adolygiad o drefniadau llywodraethu yn ôl yr angen. Os bydd pryder penodol yn codi, gall y tîm partneriaeth benderfynu cynnal adolygiad llywodraethu ffurfiol, gyda chytundeb y Tribiwnlys, yn yr amgylchiadau hynny. Mae'r ddogfen wedi cael ei llofnodi a'i dyddio gan Lywodraeth Cymru a'r Tribiwnlys. Os bydd anghysondeb rhwng unrhyw un o ddarpariaethau'r ddogfen hon a darpariaethau deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Tribiwnlys y mae'r ddogfen hon yn ymwneud ag ef, darpariaethau'r ddeddfwriaeth fydd drechaf.

1.5 Mae Llywodraeth Cymru a'r Tribiwnlys wedi cytuno ar yr egwyddorion uchod i lywodraethu'r gydberthynas rhyngddynt. Mae gan Weinidogion Cymru amrywiaeth o swyddogaethau a fydd yn parhau i gynyddu a chael eu diwygio ac mae'n rhaid gwneud penderfyniadau mewn perthynas â phob un o'r cyfryw swyddogaethau gan ymdrin â'r holl ystyriaethau perthnasol, gan eithrio'r holl ystyriaethau amherthnasol. Ni fydd unrhyw beth a geir yn y Ddogfen Fframwaith hon neu sy'n ymhlyg ynddi, neu sy'n codi oddi tani neu mewn cysylltiad â hi, mewn unrhyw ffordd yn tanseilio, yn atal nac yn effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru, nac yn gorfodi Gweinidogion Cymru i arfer neu beidio ag arfer unrhyw un o'u swyddogaethau mewn ffordd benodol. Bydd unrhyw gyfeiriad yn y ddogfen hon at unrhyw ddeddfwriaeth, boed yn gyfraith ddomestig neu'n gyfraith ryngwladol, yn cynnwys yr holl ddiwygiadau

ac amnewidiadau ac ailddeddfiadau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth honno a fydd mewn grym o bryd i'w gilydd.

1.6 At hynny, mae'n rhaid i'r Tribiwnlys sicrhau, wrth gyflawni ei swyddogaethau, ei fod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson ag Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd Llywodraeth Cymru Mae'r rhain yn cynnwys y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a nodwyd gan y Pwyllgor Safonau Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan), sef:

- rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf;
- gwybod Pwy sy'n gwneud Beth a Pham;
- ymgysylltu ag Eraill;
- arfer Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus;
- meithrin Dulliau Cyflawni Arloesol;
- bod yn Sefydliad sy'n Dysgu;
- sicrhau Gwerth am Arian.

1.7 Mae'n rhaid i'r Tribiwnlys hefyd sicrhau, wrth gyflawni ei swyddogaethau ar ran Llywodraeth Cymru, ei fod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy (y “ffyrdd o weithio”) fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (fel y'u nodir yn Atodiad C).

1.8 Mae copïau o'r ddogfen hon ynghyd ag unrhyw ddiwygiadau dilynol wedi'u rhoi yn Llyfrgell Senedd Cymru (y “Senedd”) ac maent ar gael i aelodau o'r cyhoedd ar wefan y Tribiwnlys.

## 2. Egwyddorion Llywodraethu

### Cenhadaeth a diben ar y cyd
### *Cyflawni dros Gymru*

2.1 Mae cyrff hyd braich yn chwarae rôl allweddol wrth lywodraethu Cymru a bodloni dyheadau dinasyddion Cymru. O safbwynt Llywodraeth Cymru, prif rôl corff hyd braich yw cyflawni ei gyfrifoldebau statudol neu bolisi ac amcanion a bennwyd gan Weinidogion Cymru gan ddefnyddio cyllid y pleidleisiwyd arno gan y Senedd. Cynhelir y gydberthynas hon drwy gytundeb partneriaeth a reolir ar ran Gweinidogion gan Lywodraeth Cymru. Gall fod amrywiol ffurfiau sefydliadol ar gyrff hyd braich, gan gynnwys elusennau a chyrff lled-farnwrol a gallant gwmpasu awdurdodaethau y tu hwnt i Gymru. Er eu bod yn parchu'r amrywiaeth hon, mae Gweinidogion yn disgwyl yn bennaf i gyrff hyd braich gyflawni swyddogaethau a darparu gwasanaethau pwysig ar gyfer pobl Cymru ar eu rhan.

### *Ffocws ar ganlyniadau a pherfformiad corff hyd braich*

2.2 O fewn y cyfyngiadau a bennir drwy statud a chan ymrwymiadau Gweinidogion, caiff amcanion y corff hyd braich eu nodi, hyd y gellir, yn nhermau canlyniadau sy'n glir, yn berthnasol ac yn heriol, ac yn cyfrannu at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er mwyn hyrwyddo arloesedd ac effeithlonrwydd, caiff cyrff gymaint o hyblygrwydd â phosibl o ran y ffordd y cyflawnir y canlyniadau hyn. Ni ddylai llythyrau cylch

gwaith unigol fod yn fwy rhagnodol nag sy'n ofynnol ar gyfer cyfrifoldebau'r Tribiwnlys. Fodd bynnag, dylai'r fframwaith perfformiad asesu cyfraniad y corff hyd braich wrth gyflawni ei ganlyniadau.

### Cydberthnasau rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff hyd braich

#### *Cydberthnasau sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a risg*

2.3 Dylai'r gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth a chyd-barch, gyda dull cymesur o ymdrin â risg. Lle y ceir tystiolaeth o berfformiad gwael neu lywodraethu gwan, bydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull ymarferol mwy rhagnodol o ymdrin â'r gydberthynas. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei swyddogaethau partneriaeth yn gweithio'n effeithiol a'u bod yn bodloni'r dyheadau a nodir yn yr egwyddorion hyn.

#### *Cydweithio effeithiol*

2.4 Rhoddir gwerth mawr ar gyrff hyd braich oherwydd eu harbenigedd a'u profiad. Mae'r cyrff hyn, Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn deall pwysigrwydd cydweithio a chreu 'Tîm Cymru', gan chwilio am gyfleoedd i gydweithio'n ehangach ac yn ddyfnach i ddatblygu polisi gan gefnogi ei gilydd a dathlu llwyddiant. Dylid chwilio am gyfleoedd i arbed arian, nodi arbedion effeithlonrwydd a gwella effeithiolrwydd ar y cyd ac yn egnïol.

#### *Cyfathrebu effeithiol*

2.5 Mae cyrff hyd braich a Llywodraeth Cymru yn ffurfio teulu estynedig ac yn ymrwymo i gynnal dull cyson, parchus a cholegol o ymdrin â'i gilydd yn gyhoeddus ac yn breifat. Mae pob parti yn ymrwymedig i wneud ymdrech i gyfathrebu'n effeithiol, bod mor agored â phosibl, rhannu gwybodaeth ar sail 'dim syrpreis' a rheoli materion dadleuol drwy ddeialog a negodi.

### Llywodraethiant ac atebolrwydd

#### *Cadeirydd a Chyngor Llywodraethu Corff Hyd Braich*

2.6 Mae cadeiryddion cyrff hyd braich yn ffigyrau pwysig ym mywyd cyhoeddus Cymru a chânt eu penodi yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus. Mae Cynghorau Llywodraethu cyrff hyd braich yn atebol i Weinidogion am gyflawni'r amcanion diffiniedig, gan sicrhau llywodraethu corfforaethol o ansawdd uchel, ac am oruchwylio prif weithredwr y Tribiwnlys, gan gynnwys rôl y Prif Weithredwr neu'r unigolyn sy'n cyflawni rôl gyfatebol fel Swyddog Cyfrifyddu'r Tribiwnlys.

#### *Prif rôl y Cyngor Llywodraethu wrth oruchwylio corff hyd braich*

2.7 Mater i Gyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys yn bennaf fydd llywodraethu a'r gyfundrefn reoli fewnol. Bydd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y Cyngor Llywodraethu, archwilio mewnol ac Archwilio Cymru am sicrwydd. Dylai rôl Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar roi cyfrif am gyflawni amcanion a rheoli cydberthnasau rhyngddi hi a'r Tribiwnlys. Dylid nodi rolau a disgwyliadau clir i Weinidogion, Cadeiryddion, Cynghorau Llywodraethu, swyddogion gweithredol,

Swyddogion Cyfrifyddu, timau partneriaeth ac archwilwyr yn y Ddogfen Fframwaith.

### *Rheoli perfformiad*

2.8 Er ein bod yn disgwyl mai'r norm fydd perfformiad da, llywodraethu effeithiol a chydberthynas barchus, rhaid i'n dull gweithredu allu ymateb yn effeithiol i berfformiad gwael neu broblemau eraill. Lle ceir tystiolaeth o berfformiad gwael mewn perthynas ag amcanion, rheoli arian, effeithiolrwydd y Cyngor Llywodraethu neu agweddau eraill ar lywodraethu, mae gan Lywodraeth Cymru yr hawl a'r cyfrifoldeb i gymryd rhan amlycach a bod yn fwy rhagnodol. Bydd gweithgarwch rheoli perfformiad yn seiliedig ar risg, gan ddibynnu ar reolaeth fewnol gadarn i ategu dull gweithredu llai manwl neu, fel arall, afael yn dynnach mewn materion lle mae risgiau yn cael eu rheoli'n llai boddhaol.

### *Dirprwyo*

2.9 Mae Llywodraeth Cymru a Swyddogion Cyfrifyddu cyrff hyd braich yn parhau yn gyfrifol ar y cyd am arian cyhoeddus a gaiff ei wario drwy’r Tribiwnlys. Fodd bynnag, dylai'r gyfundrefn reoli arferol ond bod mor rhagnodol ag sy'n angenrheidiol i gael sicrwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n gywir a bod canlyniadau yn cael eu cyflawni'n gost-effeithiol. Caiff cyfrifoldeb ariannol ei ddirprwyo hyd y gellir, yn gyson â chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru a Swyddogion Cyfrifyddu.

### *Ymateb i newid*

2.10 Mewn byd sy'n newid a blaenoriaethau Gweinidogion yn newid drwy'r amser, efallai y bydd angen ail-lunio swyddogaethau cyrff hyd braich a'u dulliau o ddarparu gwasanaeth neu, lle y bo'n fwy priodol, ystyried a yw eu hamcanion a'u trefniadau cyfansoddiadol yn dal i fod yn berthnasol. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiadau sefydliadol neu thematig manwl o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau bod ei chyrff hyd braich yn dal i fod yn addas at y diben a gwneud cynigion ar gyfer camau diwygio. Dylai gweithrediaeth pob corff hyd braich ddisgwyl cymryd rhan mewn Adolygiad wedi'i Deilwra unwaith ym mhob tymor o'r Senedd.

## 3. Diben Tribiwnlys Prisio Cymru

### Dibenion Statudol a Strategol

3.1 Mae'r Tribiwnlys yn endid cyfreithiol a grëwyd gan statud. Fe'i sefydlwyd fel un endid gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (Rheoliadau 2010) ac mae'n gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Fel corff cyhoeddus, mae'n gweithredu fel asiant cyflawni ar ran Gweinidogion Cymru a'i brif rôl yw cyflawni ei gyfrifoldebau statudol a pholisi a bennwyd yng nghyd-destun nodau strategol Llywodraeth Cymru.

3.2 Prif ddiben, amcanion strategol a nodau’r Tribiwnlys, fel y cytunwyd gan Weinidogion Cymru, yw darparu gwasanaeth am ddim i’r cyhoedd, gwrando a phenderfynu ar apeliadau yn erbyn prisiadau eiddo ar gyfer ardrethi annomestig, treth gyngor ac ardrethi draenio. Mae'r mathau eraill o apeliadau

o dan awdurdodaeth y Tribiwnlys yn cynnwys y rhai a gyflwynir yn erbyn atebolrwydd treth gyngor, Hysbysiadau Cwblhau a rhai mathau o gosbau a osodir gan awdurdodau lleol neu Swyddfa Brisio CThEF . Hefyd, yn unol â Pharagraff 7A Atodlen 9 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, rhaid i awdurdod bilio yng Nghymru gael cymeradwyaeth y Tribiwnlys os yw'n credu bod ganddo sail i fynd i mewn i hereditament yn ei ardal a'i arolygu os oes gan yr awdurdod sail dros gredu bod angen yr arolygiad.

3.3 Mae'r Tribiwnlys yn gwbl annibynnol ar y Swyddfa Brisio, sy'n pennu'r gwerthoedd ardrethol ar eiddo annomestig a bandiau'r dreth gyngor ar gyfer cartrefi, a'r awdurdodau lleol sy'n anfon y biliau ar gyfer ardrethi a'r dreth gyngor. Mae aelodau gwirfoddol yn gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau. Mae tîm o staff cyflogedig, dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn darparu'r gwasanaethau cymorth angenrheidiol.

3.4 Mae ei swyddogaethau statudol wedi'u nodi yn Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (Rheoliadau 2010) fel y'u gosodwyd gan Weinidogion Cymru. Mae ei nodau cyffredinol wedi'u nodi yn ei gynllun gweithredol blynyddol. Gan weithio gyda'r Tribiwnlys, mae Gweinidogion Cymru yn pennu ei amcanion strategol. Rhaid i'r Tribiwnlys nodi sut y bydd yn cyflawni ei amcanion strategol yn ei gynllun gweithredol, mewn cytundeb â'i is-adran noddi.

3.5 Bydd yr amcanion strategol yn parhau i fod ar waith am dymor y Llywodraeth y cânt eu pennu oddi tani ond byddant yn dod i ben os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu diddymu neu uno'r Tribiwnlys neu newid ei swyddogaeth.

## 4. Llywodraethiant ac Atebolrwydd

### Y Cyd-destun Cyfreithiol

4.1 Nodir swyddogaethau, pwerau a dyletswyddau'r Tribiwnlys yn:

- adran 55 o, ac Atodlen 11 i, Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;
- adran 15(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;
- Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (OS Rhif 713 / 2010 );
- Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Cymru) (Diwygio)
- (OS Rhif 547 / 2013);
- Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Cymru) (Diwygio)
- (OS Rhif 554 / 2014);
- Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Cymru) (Diwygio)
- (OS Rhif 941 / 2017)
- Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Cymru) (Diwygio)
- (OS Rhif 775 / 2023)

### Rolau a Chyfrifoldebau

***Cyfrifoldebau Gweinidogol***

4.2 Mae'r Prif Weinidog wedi rhoi'r cyfrifoldeb am oruchwylio'r Tribiwnlys i'r Gweinidog. Ar y cyfan, y Gweinidog fydd yn arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Tribiwnlys ac ef fydd yn atebol, yn y

pen draw, i'r Senedd am weithgareddau'r corff a'i ddefnydd o adnoddau. Nid yw'r Gweinidog yn gyfrifol am faterion gweithredol o ddydd o ddydd.

4.3 Y Gweinidog sy'n pennu'r fframwaith polisi ar gyfer Prif Weithredwr y Tribiwnlys. Gall y Gweinidog wneud cais i gyfarfod â'r Prif Weithredwr a/neu Gyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys os oes angen, i drafod cynnydd a gweithgareddau presennol a gweithgareddau'r dyfodol.

4.4 Mae cyfrifoldebau'r Gweinidog yn cynnwys:

- Cytuno ar amcanion a nodau strategol a thargedau allweddol y Tribiwnlys;
- Pennu'r fframwaith polisi ar gyfer y Tribiwnlys
- Cytuno ar gyllideb y Tribiwnlys a sicrhau'r cymeradwyaethau angenrheidiol gan y Senedd;
- Atebolrwydd i'r Senedd am weithgareddau'r Tribiwnlys

### *Atebolrwyddau a Chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu*

4.5 Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru yw Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru. Mae gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu gyfrifoldebau a nodir gan Drysorlys EF ac mae'n atebol i'r Senedd (drwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd) a Senedd y DU (drwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin) am y canlynol:

- rheoleidd-dra a phriodoldeb materion ariannol Llywodraeth Cymru;
- cadw cyfrifon priodol ar gyfer Gweinidogion Cymru;
- y defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau a neilltuwyd i'r Tribiwnlys drwy bleidlais o dan Gynnig Cyllidebol Blynyddol y Senedd.

4.6 Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y rheolaethau ariannol a'r rheolaethau rheoli eraill a ddefnyddir ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru yn briodol ac yn ddigonol i ddiogelu arian cyhoeddus.

### *Atebolrwyddau a Chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol*

4.7 Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru yn cael cymorth i gyflawni ei ddyletswyddau gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig (y “Cyfarwyddwr Cyffredinol”), y mae wedi'i ddynodi'n Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ac mae wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am yr Is-adran y mae tîm partneriaeth y Tribiwnlys yn rhan ohoni, iddo.

4.8 Mae gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, fel y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, gyfrifoldeb i helpu'r Prif Swyddog Cyfrifyddu (a thrwy'r Prif Swyddog Cyfrifyddu i'r Gweinidog a'r Senedd) i sicrhau;

- bod y rheolaethau ariannol a'r rheolaethau rheoli eraill a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn briodol ac yn ddigonol i ddiogelu arian cyhoeddus ac, yn fwy cyffredinol, bod y rhai sy'n cael eu defnyddio gan y Tribiwnlys yn cydymffurfio â gofynion priodoldeb a rheolaeth ariannol dda;
- bod datganiad digonol o'r gydberthynas ariannol rhwng Gweinidogion Cymru a'r Tribiwnlys (hynny yw, y Ddogfen Fframwaith hon) a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd; bod ansawdd y gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Tribiwnlys yn parhau i fod yn dda;

- bod yr amodau sydd ynghlwm wrth yr adnoddau a'r cymorth grant a ddyfarnwyd yn cydymffurfio â thelerau'r Gyllideb a bod trefniadau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth y Tribiwnlys â'r amodau hynny.

4.9 Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau ar waith er mwyn:

- mynd i'r afael â phroblemau sylweddol yn y Tribiwnlys, gan wneud y cyfryw ymyriadau ag a ystyrir yn angenrheidiol;
- asesu, o bryd i'w gilydd, y risgiau i amcanion a gweithgareddau Llywodraeth Cymru a'r corff;
- hysbysu'r corff am bolisi perthnasol y Llywodraeth mewn modd amserol;
- monitro gweithgareddau'r Tribiwnlys a'i sefyllfa ariannol drwy gyfarfodydd a ffurflenni rheolaidd;
- dwyn unrhyw bryderon am weithgareddau'r corff, sy'n gofyn am esboniad a sicrwydd y caiff camau unioni eu cymryd, i sylw Cyngor Llywodraethu llawn y Tribiwnlys;
- dynodi Prif Weithredwr y Tribiwnlys yn Swyddog Cyfrifyddu'r Tribiwnlys, onid ymdrinnir â hynny gan Reoliadau 2010.

4.10 Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn gyfrifol am roi cyngor i'r Gweinidog ar y canlynol:

- amcanion strategol priodol i'r Tribiwnlys o ystyried nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru a dangosyddion cyflawni a pherfformio allweddol;
- cyllideb briodol i'r Tribiwnlys o ystyried blaenoriaethau gwariant cyffredinol y Grŵp
- pa mor dda mae'r Tribiwnlys yn cyflawni ei amcanion strategol o fewn y fframwaith polisi ac adnoddau a bennir gan y Gweinidog ac a yw'n cynnig gwerth am arian.

4.11 Rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol sicrhau bod trefniadau goruchwylio priodol ar waith.

### *Tîm Noddi*

4.12 Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol wedi dirprwyo cyfrifoldeb am reoli cysylltiadau â'r Tribiwnlys o ddydd i ddydd i'r Dirprwy Gyfarwyddwr sy'n arwain yr Is-adran Polisi a Diwygio Ardrethi Annomestig fel yr Is-adran Noddi o fewn Llywodraeth Cymru.

4.13 Yr Is-adran Noddi yw'r brif ffynhonnell o gyngor i Weinidogion Cymru ar gyflawni cyfrifoldebau'r Tribiwnlys ac mae'n cefnogi Swyddogaeth Cyfrifyddu Ychwanegol yr adran noddi mewn perthynas â chyfrifoldebau'r swyddog hwnnw dros y Tribiwnlys. Bydd swyddogion o'r Is-adran Noddi yn cydgysylltu'n rheolaidd â swyddogion o'r Tribiwnlys er mwyn asesu perfformiad ariannol y Tribiwnlys yn erbyn cynlluniau a'r hyn y mae wedi'i gyflawni yn erbyn targedau. Bydd yr Is-adran Noddi hefyd yn manteisio ar y cyfle i lywio ac esbonio datblygiadau polisi ehangach a allai effeithio ar y Tribiwnlys. Nodir cyfrifoldebau penodol yr Is-adran Noddi yn Atodiad A.

4.14 Y pwynt cyswllt arferol i'r Tribiwnlys wrth ddelio â Llywodraeth Cymru yw'r Pennaeth Cyllid a Noddi Cyrff Prisio yn yr Is-adran Noddi. Dylai'r Tribiwnlys hysbysu'r unigolyn hwn os bydd yn bwriadu cyfarfod â swyddogion o ran arall o Lywodraeth Cymru (ac eithrio cyfarfodydd a thrafodaethau â'r Uned Cyrff Cyhoeddus).

***Yr Uned Cyrff Cyhoeddus***

4.15 Yr Uned Cyrff Cyhoeddus sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob un o gyrff cyhoeddus Llywodraeth Cymru sy'n rhan o'i chylch gwaith yn ddarostyngedig i'r rheolaethau perthnasol a'u bod yn cael rhyddid priodol i reoli eu cyfrifoldebau. Hefyd, o dan Brif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru, mae ganddi gyfrifoldeb penodol i sicrhau:

- bod pob corff hyd braich newydd ei greu wedi'i sefydlu'n briodol a bod ganddo'r cytundebau a'r dogfennau priodol, megis y Ddogfen Fframwaith hon, drwy ofyn i'r Uned Cyrff Cyhoeddus eu clirio cyn eu cyflwyno i Weinidogion;
- bod prosesau penodi Prif Weithredwyr ac uwch-aelodau eraill o staff gan y Tribiwnlys neu iddo, lle mae'r rhain yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus o dan y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ar Benodiadau Cyhoeddus, yn bodloni gofynion y Cod Llywodraethu neu, lle nad yw'r Cod yn gymwys, eu bod yn cyd-fynd ag arferion gorau;
- yn yr un modd, fod yr holl benodiadau i swyddi anweithredol naill ai'n bodloni gofynion y Cod neu, lle nad yw'n gymwys, yn cyd-fynd ag arferion gorau;
- bod yr holl systemau talu a chynigion ar gyfer setliadau cyflog blynyddol yn bodloni gofynion y cylch gwaith cyflog blynyddol a pholisi ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Cyflog Byw Gwirioneddol, cyflog cyfartal a materion eraill;

4.16 Bydd yr Uned Cyrff Cyhoeddus hefyd yn rhoi cyngor a gwybodaeth i dimau partneriaeth ar faterion atebolrwydd a llywodraethu.

**Atebolrwyddau a Chyfrifoldebau Prif Weithredwr y Tribiwnlys**
***Cyffredinol***

4.17 Mae Prif Weithredwr y Tribiwnlys yn atebol i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol. Penodir a chyflogir Prif Weithredwr y Tribiwnlys gan y Cyngor Llywodraethu, gyda chymeradwyaeth y Gweinidog. Y Prif Weithredwr yw prif gynghorydd y Cyngor ar gyflawni ei swyddogaethau ac mae'n atebol i'r Cyngor. Rôl y Prif Weithredwr yw darparu arweinyddiaeth weithredol i'r Corff a sicrhau y caiff nodau ac amcanion y Cyngor, swyddogaethau'r Corff a thargedau eu cyflawni. Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldebau tebyg i Swyddog Cyfrifyddu Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod yr arian cyhoeddus y mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol amdano yn cael ei warchod a'i wario mewn ffordd briodol; am weithrediadau'r Tribiwnlys a'r ffordd y mae'n cael ei reoli o ddydd i ddydd; ac am sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Caiff y Prif Weithredwr ddirprwyo'r gwaith o

weinyddu ei gyfrifoldebau o ddydd i ddydd i gyflogeion y Tribiwnlys ond mae'n parhau i fod yn bersonol gyfrifol ac atebol amdanynt.

4.18 Rhaid i'r Cyngor Llywodraethu fod yn llwyr ymwybodol o'r cyfrifoldebau sydd wedi'u gosod ar y Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu a'u hystyried.

4.19 Nodir rhagor o fanylion am gyfrifoldebau penodol Swyddog Cyfrifyddu'r corff, gan gynnwys ei atebolrwydd i'r Senedd, Llywodraeth Cymru a Chyngor Llywodraethu'r corff, yn y Memorandwm, "Accountabilities and Responsibilities of the Chief Executive as Accounting Officer", y bydd y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol wedi'i anfon at y Swyddog Cyfrifyddu. Atodir Memorandwm enghreifftiol yn Atodiad C er mwyn cyfeirio ato.

### *Atebolrwyddau i Senedd Cymru*

4.20 Mae Swyddog Cyfrifyddu'r corff yn atebol i'r Senedd am y canlynol:

- llofnodi'r adroddiad blynyddol a sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw mewn perthynas â'r adroddiad blynyddol;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi a'i gyflwyno yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru;
- llofnodi datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu i'w gynnwys yn yr adroddiad blynyddol;
- llofnodi'r Datganiad Llywodraethu i'w gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol;
- rhoi tystiolaeth, gan gynnwys mynd i wrandawiadau, ar faterion sy'n ymwneud â'r corff sy'n codi gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, pwyllgorau eraill y Senedd, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin neu Bwyllgorau Seneddol eraill, er mwyn cyfrif am y ffordd y mae'r corff yn gwarchod arian cyhoeddus;
- gweithredu ar unrhyw argymhellion gan y pwyllgorau hynny sydd wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru.

### *Atebolrwydd i Lywodraeth Cymru*

4.21 Mae Swyddog Cyfrifyddu'r corff yn atebol i Lywodraeth Cymru, drwy ei thîm partneriaeth, am y canlynol:

- drwy gytundeb â'r tîm partneriaeth, llunio cynlluniau corfforaethol a gweithredol y corff, gan ystyried cyfraniad y corff tuag at nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- hysbysu'r tîm partneriaeth am y cynnydd sydd wedi'i wneud wrth helpu i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru a dangos sut mae adnoddau yn cael eu defnyddio i gyflawni'r amcanion hynny;
- sicrhau bod rhagolygon amserol a gwybodaeth fonitro am berfformiad a chyllid yn cael eu darparu i'r tîm partneriaeth; bod y tîm yn cael ei hysbysu'n brydlon os yw'n debygol y bydd gorwariannau neu danwariannau a sicrhau bod camau unioni yn cael eu cymryd;
- hysbysu Llywodraeth Cymru (neu gymryd y camau cyn hysbysu priodol) os bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud sy'n bodloni'r meini prawf yn Atodiad B;
- sicrhau y caiff y tîm partneriaeth ei hysbysu am broblemau sylweddol cyn gynted â phosibl;

- defnyddio “pum ffordd o weithio” Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- rhoi i Lywodraeth Cymru y cyfryw wybodaeth am ei pherfformiad a'i gwariant ag y gall Llywodraeth Cymru yn rhesymol ofyn amdani.

### *Cyfrifoldebau o ran Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys*

4.22 Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am y canlynol:

- rhoi cyngor i'r Cyngor Llywodraethu ar gyflawni ei gyfrifoldebau fel y'u nodir yn y ddogfen hon, mewn deddfwriaeth berthnasol, yn Llythyr Cylch Gwaith y Gweinidog neu ohebiaeth arall i'r corff, ac unrhyw ganllawiau eraill a all ddod o bryd i'w gilydd;
- rhoi cyngor i'r Cyngor Llywodraethu ar berfformiad y corff yn erbyn ei nodau a'i amcanion;
- sicrhau bod y Cyngor Llywodraethu yn rhoi sylw llawn i ystyriaethau ariannol ar bob cam yn y broses o ddod i'w benderfyniadau a'u rhoi ar waith a bod technegau arfarnu ariannol addas yn cael eu dilyn;
- sicrhau bod system dda o lywodraethu corfforaethol a sicrwydd ar waith yn y corff yn unol ag egwyddorion y Cod Llywodraethiant Corfforaethol ar gyfer Adrannau Llywodraeth Ganol;
- sicrhau bod system rheoli risg yn cael ei chynnal er mwyn llywio penderfyniadau ar gynlluniau ariannol a gweithredol a chynorthwyo i gyflawni amcanion a thargedau;
- sicrhau bod trefniadau rheoli mewnol a rheolaethau ariannol cadarn yn cael eu cyflwyno, eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd – gan gynnwys mesurau i ddiogelu rhag twyll a dwyn (y bydd y cyfryw fesurau yn cynnwys system gynhwysfawr o awdurdodau mewnol dirprwyedig);
- sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion am y corff, gan gynnwys gweithdrefnau priodol ar gyfer cwynion 'chwythu'r chwiban';
- datblygu a chynnal polisïau rheoli personél priodol, y bydd pob un ohonynt ar gael yn hawdd i bob aelod o'r staff;
- cymryd camau fel y bo'n briodol yn unol â thelerau Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu, os bydd y Cyngor Llywodraethu neu ei Gadeirydd yn ystyried cam gweithredu sy'n cynnwys trafodiad y mae'r Prif Weithredwr o'r farn y byddai'n mynd yn groes i ofynion priodoldeb neu reoleidd-dra, neu nad yw'n cynrychioli gweinyddiaeth ddarbodus neu ddiwastraff neu effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd, y mae ei ymarferoldeb yn ansicr neu sy'n anfoesol.

4.23 Rhaid i gydraddoldeb a gwaith teg fod wrth wraidd y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac, felly, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cyrff a ariennir ganddi gynnal safonau cyflogaeth foesegol. Rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau bod trefniadau cyflog yn y corff yn gyfartal i bawb, yn briodol, yn dryloyw, yn cynnig gwerth am arian ac yn gwobrwyo staff yn deg am y gwaith y maent yn ei wneud.

4.24 Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am benderfyniadau ar staffio yn y corff. Mae hyn yn cynnwys polisïau yn ymdrin â thelerau ac amodau staff; cynnig cynllun pensiwn; a sicrhau bod arferion gwerthuso swyddi a recriwtio cadarn, priodol a theg yn cael eu dilyn. Fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru gael ei hysbysu

am gynigion penodol ar gyfer newidiadau i'r gweithlu, gan gynnwys trefniadau ar gyfer dileu swyddi, fel y nodir yn Atodiad D.

4.25 Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod cydnabyddiaeth ariannol yn cyd-fynd ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyflogau'r sector cyhoeddus. Dylid rheoli pob newid cyflog yn unol â'r gofynion cymeradwyo a'r terfynau dirprwyo a amlinellir yn Atodiad C.

***Rôl y Prif Weithredwr fel y Prif Swyddog ar gyfer Achosion sy'n ymwneud â'r Ombwdsmon***

4.26 Y Prif Weithredwr hefyd yw'r Prif Swyddog ar gyfer delio ag achosion sy'n ymwneud ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru**

4.27 O dan y fframwaith a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys (y cyngor) sy'n gyfrifol am gyfeiriad a rheolaeth gyffredinol y Tribiwnlys. Caiff llywydd y Tribiwnlys ei ethol gan aelodau'r Tribiwnlys. Mae Rheoliadau 2010 yn rhagnodi cyfansoddiad y Cyngor Llywodraethu. Mae Rheoliad 7 yn galluogi Gweinidogion Cymru i benodi hyd at dri aelod o'r cyngor.

***Cyfrifoldebau ar y Cyd***

4.28 Rôl y Cyngor Llywodraethu yw:

- arwain y corff yn effeithiol, gan ddiffinio a datblygu cyfeiriad strategol a phennu amcanion heriol;
- hyrwyddo safonau cyllid cyhoeddus uchel, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
- sicrhau y caiff gweithgareddau'r Tribiwnlys eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol ac mewn ffordd sy'n gyson â'r “pum ffordd o weithio” (fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015);
- monitro perfformiad er mwyn sicrhau bod y corff yn cyflawni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad yn llawn;
- hyrwyddo egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth

4.29 Mae'r Cyngor Llywodraethu yn gyfrifol am y canlynol:

- pennu a datblygu nodau ac amcanion strategol y corff yn unol â'i ddiben cyffredinol, y nodau Llesiant ac o fewn y fframwaith polisi ac adnoddau a bennir gan y Gweinidog;
- sicrhau bod strategaethau yn cael eu datblygu ar gyfer cyflawni amcanion y Tribiwnlys ar y cyd â Gweinidogion Cymru, a rhanddeiliaid perthnasol eraill, er enghraifft cyflogeion, cwsmeriaid a darparwyr cyllid;
- sicrhau bod y Gweinidog a'r tîm partneriaeth yn cael gwybodaeth lawn am unrhyw newidiadau sy'n debygol o effeithio ar gyfeiriad strategol y corff neu ar b'un a ellir cyflawni ei dargedau ac am gamau sydd angen eu cymryd i ddelio â'r cyfryw newidiadau;

- sicrhau cydymffurfedd ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus;
- sicrhau ei fod yn gweithredu o fewn terfynau ei awdurdod statudol ac unrhyw awdurdod dirprwyedig y cytunwyd arno â Llywodraeth Cymru ac yn unol ag unrhyw amodau eraill sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus;
- wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau ei fod yn ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru;
- sicrhau ei fod yn cael ac yn adolygu'n rheolaidd wybodaeth ariannol am y ffordd y mae'r corff yn cael ei reoli;
- sicrhau bod y Gweinidog yn cael ei hysbysu mewn modd amserol am unrhyw bryderon am weithgareddau'r corff, gan gynnwys gweithgareddau a allai effeithio ar faint o adnoddau y bydd eu hangen yn y dyfodol, ac unrhyw newidiadau i bolisïau neu arferion y gallai fod iddynt oblygiadau ariannol eang;
- cymryd camau unioni priodol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu newidiadau y mae iddynt oblygiadau ariannol eang, a rhoi sicrwydd cadarnhaol i'r Gweinidog drwy'r tîm partneriaeth fod camau unioni priodol wedi'u cymryd er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon o'r fath;
- dangos safonau llywodraethu corfforaethol uchel bob amser, er mwyn mynd i'r afael â risgiau ariannol allweddol a risgiau eraill;
- [ar ôl cael cymeradwyaeth y Gweinidog ymlaen llaw] penodi Prif Weithredwr yn unol â'r matrics dirprwyaethau a nodir yn Atodiad B;
- sicrhau bod y corff yn ystyried cyfle cyfartal wrth gymeradwyo polisïau a gwneud penderfyniadau;
- sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith er mwyn rhoi sicrwydd ynglŷn â rheoli risg, gan gynnwys diogelwch gwybodaeth, llywodraethu, y gwasanaeth archwilio mewnol, y gwasanaeth archwilio allanol a rheolaeth fewnol yn unol â gofynion statudol a rheoleiddiol cymwys a, lle y bo'n berthnasol, Godau Ymarfer neu ganllawiau eraill sy'n berthnasol i'r sector.

4.30 Mae'r Cyngor Llywodraethu hefyd yn gyfrifol am y canlynol:

- Cadarnhau bod y Prif Weithredwr yn gweithredu fel yr Uwch-Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) gyda chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod asedau a risgiau gwybodaeth yn cael eu rheoli fel rhan annatod o weithrediadau busnes yn hytrach nag fel pryderon technegol yn unig. Mae'r Uwch-Berchennog Risgiau Gwybodaeth yn sicrhau bod unrhyw risgiau gwybodaeth sy'n effeithio ar amcanion busnes yn cael eu dwyn i sylw'r Cyngor Llywodraethu a'u trin yn briodol.

4.31 Er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r Cyngor Llywodraethu sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rhoi sicrwydd ynglŷn â rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Rhaid i'r Cyngor Llywodraethu sicrhau ei hun bod y systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg yn effeithiol.

4.32 Nid yw cyfrifoldeb personol y Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu i sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian yn lleihau mewn unrhyw ffordd gyfrifoldeb aelodau'r Cyngor Llywodraethu, y mae dyletswydd ar bob un ohonynt i ymddwyn mewn ffordd sy'n hyrwyddo safonau cyllid cyhoeddus uchel ac i sicrhau bod gweithgareddau'r corff yn cael eu cynnal mewn modd effeithlon

ac effeithiol. Ni ddylai'r Cyngor Llywodraethu roi unrhyw gyfarwyddiadau i'r Prif Weithredwr sy'n gwrthdaro â'i ddyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu'r corff.

4.33 I'r graddau ag y caniatâ Rheoliadau 2010, caiff y Cyngor Llywodraethu ddirprwyo i aelodau o staff y cyfrifoldeb am weinyddu'r gwaith o reoli materion o ddydd i ddydd ond bydd yn parhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol yn y pen draw am yr holl faterion hynny. Rhaid i'r corff gynnal rhestr o faterion a gedwir yn ôl i'w Gyngor Llywodraethu benderfynu arnynt yn ogystal â chynllun dirprwyo a gymeradwywyd gan y Cyngor

***Cyfrifoldebau Personol Llywyddion Tribiwnlys Prisio Cymru***

4.34 Disgwylir i'r Llywydd ymgynghori'n aml â Phrif Weithredwr y Tribiwnlys, mynychu cyfarfodydd y Cyngor a gweithgareddau perthnasol eraill y Tribiwnlys (gan gynnwys diwrnodau hyfforddi), a chynrychioli'r Tribiwnlys fel y bo'n briodol gyda chyrff allanol. Byddai hyn fel arfer yn cyfateb i o leiaf 12 diwrnod gwaith y flwyddyn. Bydd y Llywydd yn cadeirio, yn arwain ac yn cyfarwyddo'r Cyngor, a'r Llywydd fydd ei brif gyswllt â'r Senedd, gan godi materion y mae'r Llywydd yn bersonol yn ystyried eu bod yn briodol, neu yn unol â chyfarwyddyd y Cyngor.

4.35 Mae Cadeirydd y corff yn atebol i'r Gweinidog a'r Cyngor Llywodraethu a gall hefyd gael ei ddwyn i gyfrif gan y Senedd. Yn ystod busnes arferol, bydd unrhyw gyfathrebu rhwng y Cyngor Llywodraethu a'r Gweinidog yn digwydd drwy'r Cadeirydd. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod aelodau eraill y Cyngor Llywodraethu yn cael gwybod am unrhyw gyfathrebu o'r fath.

4.36 Y Cadeirydd fydd yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau a chamau gweithredu'r Cyngor Llywodraethu yn cefnogi polisïau strategol ehangach y Gweinidog a bod busnes y corff yn cael ei gynnal mewn ffordd onest. Lle y bo'n briodol, rhaid i'r Cadeirydd wneud trefniadau i gyfleu a lledaenu'r polisïau a'r camau gweithredu hyn i bob rhan o'r corff.

4.37 Fel arweinydd, mae gan y Cadeirydd gyfrifoldeb penodol i wneud y canlynol:
- llunio strategaethau'r Tribiwnlys;
- sicrhau bod y Cyngor Llywodraethu, wrth ddod i benderfyniadau, yn rhoi ystyriaeth briodol i ofynion rheoli statudol ac ariannol a'r holl ganllawiau perthnasol gan gynnwys canllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru;
- hyrwyddo'r defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill;
- sicrhau safonau uchel o ran rheoleidd-dra a phriodoldeb;
- cyfleu barn y Cyngor Llywodraethu i'r cyhoedd.

4.38 Rhaid i'r Cadeirydd hefyd wneud y canlynol:
- sicrhau bod holl aelodau'r Cyngor Llywodraethu yn cael eu briffio'n llawn ar delerau eu penodiad ac ar eu dyletswyddau, eu hawliau a'u cyfrifoldebau;
- sicrhau ei fod ef, ynghyd ag aelodau eraill o'r Cyngor Llywodraethu, yn cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys ar ofynion cyrff yn y sector cyhoeddus o ran rheolaeth ariannol ac adrodd ac ar y gwahaniaethau a allai fodoli rhwng arferion yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus;

- ymdrechu i sicrhau bod gan y Cyngor Llywodraethu gydbwysedd priodol o ran sgiliau a chefndiroedd sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru orau er mwyn cyfarwyddo busnes y corff;
- os bydd penodiadau i swyddi gwag ar y Cyngor Llywodraethu yn cael eu gwneud gan y Gweinidog, rhoi cyngor i'r Gweinidog ar anghenion y corff a'r ffordd orau y gallai adlewyrchu amrywiaeth Cymru;
- sicrhau bod Cod Ymddygiad priodol ar gyfer aelodau'r Cyngor Llywodraethu, gan gynnwys rheolau a chanllawiau ar fuddiannau a gwrthdaro buddiannau aelodau'r Cyngor Llywodraethu, ar waith, a'i fod yn cyd-fynd â Chod enghreifftiol Llywodraeth Cymru.

***Cyfrifoldebau Aelodau Unigol o'r Cyngor Llywodraethu***

4.39 Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau bydd aelodau'r Cyngor Llywodraethu yn gwneud y canlynol:

- cydymffurfio â Chod Ymddygiad y corff ar gyfer Aelodau'r Cyngor Llywodraethu bob amser a'r holl reolau cymwys sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus a gwrthdaro buddiannau;
- peidio â chamddefnyddio gwybodaeth a gafwyd yn ystod eu gwasanaeth cyhoeddus er mwyn sicrhau mantais bersonol na gwleidyddol, na cheisio defnyddio'r cyfle a gynigir gan wasanaeth cyhoeddus i hyrwyddo eu buddiannau personol na buddiannau personau na sefydliadau y mae ganddynt gydberthynas â nhw;
- cydymffurfio â rheolau'r corff ar dderbyn rhoddion a lletygarwch, a phenodiadau busnes;
- datgan pob achos posibl a gwirioneddol o wrthdaro buddiannau i'r Cadeirydd a diweddaru'r wybodaeth hon o leiaf unwaith y flwyddyn neu pan fydd amgylchiadau'n newid;
- gweithredu'n ddidwyll er budd y corff bob amser

***Presenoldeb Llywodraeth Cymru yng Nghyfarfodydd y Cyngor Llywodraethu***

4.40 Er na ddylent eu mynychu fel mater o'r drefn, mae Gweinidogion Cymru yn cadw'r hawl i'w swyddogion fynd i gyfarfodydd Cyngor Llywodraethu'r corff fel cynghorwyr a/neu fel arsylwyr. Gall y Cyngor Llywodraethu hefyd eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd er mwyn rhoi cyngor neu wybodaeth benodol.

4.41 Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn chwarae unrhyw ran ym mhroses gwneud penderfyniadau unrhyw Gyngor Llywodraethu.

## 5. Gofynion Cyfrifyddu ac Adrodd

### Systemau cyfrifyddu ariannol a rheoli

5.1 Rhaid i'r Tribiwnlys weithredu systemau cyfrifyddu ariannol a rheoli sy'n ei gwneud yn bosibl i gynnal adolygiad llawn o berfformiad, costau, llif arian a'r gweithlu yn erbyn cyllidebau a thargedau y cytunwyd arnynt. Rhaid dogfennu pob penderfyniad a thrafodiad yn llawn er mwyn darparu trywydd effeithiol at ddibenion archwilio.

**Adroddiad Blynyddol**

5.2 Cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, a dim hwyrach na 30 Medi, bydd y Tribiwnlys yn cyhoeddi adroddiad ar ei weithgareddau er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru, y Senedd, cleientiaid eraill a'r cyhoedd i farnu ei lwyddiant wrth gyflawni ei dargedau.

5.3 Dylai Adroddiad Blynyddol y Tribiwnlys gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ar ôl iddo gael ei gyhoeddi'n ffurfiol.

5.4 Rhaid i'r Adroddiad Blynyddol amlinellu prif weithgareddau a pherfformiad y Tribiwnlys yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol a chynnwys crynodeb o wariant blynyddol y Tribiwnlys.

## 6. Trefniadau Archwilio

**Archwilio Mewnol**

6.1 Bydd y Tribiwnlys yn destun archwiliad mewnol rheolaidd gan Wasanaethau Archwilio Mewnol (IAS) Llywodraeth Cymru fel sy'n ofynnol ganddi.

6.2 Bydd gan y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, yn rhinwedd Atodlen 8 i Ddeddf 2006, fynediad llawn at lyfrau a chofnodion y Tribiwnlys er mwyn archwilio i ba raddau y mae'r Tribiwnlys wedi defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol wrth gyflawni ei swyddogaethau ac archwilio materion yn ymwneud â rheoleidd-dra a phriodoldeb gwariant a derbyniadau.

6.3 Ceidw Llywodraeth Cymru hawl mynediad i gynnal adolygiadau o'r fath drwy'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol pan fydd yn ystyried y gallai fod angen gwneud hynny.

**Hawl Mynediad Llywodraeth Cymru**

6.4 Rhaid i'r corff, heb godi tâl, ganiatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion Llywodraeth Cymru, ar unrhyw adeg resymol a chan roi rhybudd rhesymol (o dan amgylchiadau eithriadol, megis atal neu ganfod twyll, efallai na fydd yn ymarferol rhoi rhybudd rhesymol i'r corff) i'r corff, ymweld â'i safle a/neu arolygu unrhyw rai o'i weithgareddau a/neu archwilio a gwneud copïau o'i gyfrifon ac unrhyw ddogfennau neu gofnodion eraill o'r fath ni waeth sut y cânt eu storio a all, ym marn resymol y cyfryw swyddog, ymwneud mewn unrhyw ffordd â'i ddefnydd o'r cyllid a ddarparwyd. Nid yw'r ymgymeriad hwn yn effeithio ar unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill y gall Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, [neu'r Comisiwn Ewropeaidd] neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r uchod eu harddel, fel y bo'n briodol, ac mae'n ddarostyngedig i unrhyw gyfryw hawliau a phwerau.

## 7. Trefniadau Rheoli

### Cyffredinol

7.1 Bydd y Tribiwnlys yn dilyn yr egwyddorion, y rheolau, y canllawiau a'r cyngor yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a'r Ddogfen Fframwaith hon bob amser, gan gyfeirio unrhyw anawsterau neu geisiadau posibl am eithriadau rhag gofynion y Ddogfen Fframwaith hon i'r tîm partneriaeth yn y lle cyntaf. Os bydd angen gwyro oddi wrth y Ddogfen Fframwaith hon, rhaid i Lywodraeth Cymru gytuno ar hyn yn ysgrifenedig.

7.2 O bryd i'w gilydd, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am wybodaeth a data penodol gan y corff. Gall cyngor a chanllawiau y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu hystyried hefyd gael eu cyhoeddi gan Ysgrifennydd Parhaol ac Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, yn ogystal â Thrysorlys EF.

7.3 Rhaid i'r Tribiwnlys sicrhau bob amser fod ei gydberthynas â Llywodraeth Cymru yn cael ei chydnabod yn briodol drwy ddefnyddio nod brand Llywodraeth Cymru.

7.4 Wrth fynd ati i gyflawni ei nodau, bydd y corff yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill yng Nghymru gan gynnwys y sector preifat, awdurdodau lleol, cyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol gan adlewyrchu'r ymrwymiadau yng nghytundebau partneriaeth Gweinidogion Cymru â'r sector gwirfoddol, y sector busnes a'r sector llywodraeth leol.

### Staffio

***Recriwtio, cadw a rheoli staff***

7.5 O fewn y trefniadau a gymeradwywyd gan y Gweinidog, mae Prif Weithredwr y Tribiwnlys yn gyfrifol am recriwtio, cadw a chymell staff yn ddarostyngedig i'r gofynion cyffredinol canlynol:

- wrth recriwtio, rheoli a datblygu staff, bydd y corff yn dilyn egwyddorion rheoleidd-dra a phriodoldeb wrth ddefnyddio adnoddau fel y'u nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, yn arbennig, Pennod 4 sy'n ymdrin â strwythurau rheolaeth fewnol a llywodraethu;
  caiff y corff benderfynu ar ei strwythur ei hun ac eithrio:
- creu neu ailraddio unrhyw swydd uwch-reoli sy'n uniongyrchol atebol i'r Prif Weithredwr;
- unrhyw gynnig i greu swydd newydd, neu ailraddio swydd, ar lefel nad yw'n cael ei chynrychioli eisoes yn y strwythur staffio; neu
- unrhyw gynnig i ailraddio pob swydd ar radd benodol.
- caiff y corff amrywio cyfanswm y staff a gyflogir er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran maint ei weithrediadau neu ei swyddogaethau. Rhaid i'r cyflog a'r costau cysylltiedig gael eu haddasu'n unol â hynny a'u hadlewyrchu yng nghyfanswm Costau Rhedeg Rheolaeth oni hysbysir Llywodraeth Cymru fel arall drwy ei thîm partneriaeth;
- yn amodol ar ei lefelau awdurdod dirprwyedig, rhaid i'r corff sicrhau na fydd creu unrhyw swyddi ychwanegol yn arwain at ymrwymiadau yn y dyfodol a fydd yn fwy na'i allu i'w hariannu;

- y bydd polisïau rheoli a datblygu staff ar waith sy'n adlewyrchu trefniadau ar gyfer arfarnu staff a rheoli perfformiad gan gynnwys hyfforddi a datblygu er mwyn annog staff i feithrin sgiliau proffesiynol a sgiliau rheoli perthnasol ac unrhyw sgiliau ac ymddygiadau eraill sydd eu hangen i gyflawni eu rolau;
- bydd gan y corff God Ymddygiad ar gyfer ei staff, sy'n cyd-fynd â'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru;
- bydd ganddo weithdrefnau cwyno a disgyblu priodol ar waith a threfniadau priodol ar gyfer ymdrin ag unrhyw bryderon a all fod gan aelodau o'r staff am amhriodoldeb;
- y bydd yn gweithio gydag undebau llafur cydnabyddedig neu (os na fydd unrhyw undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill o'u staff ac y bydd yn dilyn egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol fel y'u nodir gan Lywodraeth Cymru;
- y bydd yn ymgynghori mewn modd ystyrlon â'i undebau llafur cydnabyddedig neu (os na fydd unrhyw undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill o'u staff ynghylch materion sy'n effeithio arnynt.

### *Telerau ac Amodau Gwasanaeth*

7.6 Bydd staff y Tribiwnlys, boed ar delerau penodiad parhaol neu gyfnodol, yn ddarostyngedig i lefelau cydnabyddiaeth a thelerau ac amodau gwasanaeth (gan gynnwys cyfraddau ad-dalu am dreuliau) fel y'u nodir yn y Cytundeb Cenedlaethol ar Gyflog ac Amodau Gwasanaeth ar gyfer Staff Llywodraeth Leol (y Llyfr Gwyrdd) a pholisïau perthnasol y Tribiwnlys. Y Tribiwnlys, fel y cyflogwr, sy'n penodi staff ac yn pennu eu telerau ac amodau gwasanaeth.

7.7 Mae telerau ac amodau presennol staff y Tribiwnlys wedi'u nodi ym mholisïau perthnasol y Tribiwnlys, mewn contractau cyflogaeth unigol, ac yn y Cytundeb Cenedlaethol ar Gyflog ac Amodau Gwasanaeth ar gyfer Staff Llywodraeth Leol. Rhaid i staff y Tribiwnlys hefyd gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer staff y Tribiwnlys a rhaid rhoi copi o'r Cod iddynt.

7.8 Mae staff y Tribiwnlys yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac yn talu cyfraniadau cyflogai fel y'u pennir gan y Cynllun Pensiwn i un o'r cynlluniau awdurdod lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn talu cyfraniadau cyflogwr ar ran staff y Tribiwnlys i'r cynllun. Gall y staff ddewis talu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol i'w cynllun os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

7.9 Bydd unrhyw bensiynau a dderbynnir gan staff y Tribiwnlys yn unol â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

7.10 Mae angen cael cytundeb a chymeradwyaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw gynnig i wneud taliadau diswyddo a/neu ymddeoliad cynnar i staff y Tribiwnlys, neu newid o'r trefniadau pensiwn presennol.

### *Costau staff*

7.11 Mae'r Tribiwnlys yn gweithredu o dan un gyfundrefn costau rhedeg. Yn amodol ar y lefelau awdurdod a ddirprwyir iddo, rhaid i'r Tribiwnlys sicrhau na fydd

unrhyw swyddi ychwanegol a gaiff eu creu yn arwain at ymrwymiadau yn y dyfodol a fydd yn drech na'i allu i dalu amdanynt.

7.12 Bydd y Tribiwnlys yn adolygu ei systemau cyflog a graddio yn gyson ac yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar drefniadau amgen sydd, ym marn y Tribiwnlys, yn adlewyrchu anghenion gweithredol yn well.

***Polisi Rheoli a Datblygu Staff***

7.13 Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am reoli'r staff. Mae'r Tribiwnlys yn gyfrifol am ddatblygu polisïau clir mewn perthynas â'i staff. Yn benodol, dylai sicrhau'r canlynol:

- bod y lefelau a'r strwythur staffio, gan gynnwys graddau'r staff a nifer y staff, yn gymesur â'i swyddogaethau a'r gofynion i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd;
- bod staff yn cael eu recriwtio mewn ffordd deg ar sail cystadleuaeth agored;
- bod system ar gael ar bob lefel sy'n gwerthuso perfformiad staff yn foddhaol ac yn rhoi rhagolwg iddynt o amcanion ac anghenion datblygu sy'n gysylltiedig â'u gwaith yn y dyfodol;
- bod rhaglen datblygu staff ar gael drwy strategaeth hyfforddi a datblygu sydd wedi'i chynllunio i alluogi'r holl staff i feithrin yr arbenigedd proffesiynol, yr arbenigedd rheoli ac arbenigeddau eraill priodol sy'n angenrheidiol i gyflawni nodau ac amcanion y Tribiwnlys;
- bod trefniadau priodol ar waith i ymdrin yn briodol ag unrhyw bryderon gan staff ynghylch ymddygiad amhriodol;
- bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i bolisi cyfle cyfartal.

***Ymgynghori â Staff ac Undebau Llafur***

7.14 Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am sicrhau yr ymgynghorir yn briodol â staff ar faterion sy'n effeithio arnynt. Fel rhan o'r broses honno, dylai'r Tribiwnlys ystyried yr angen am grŵp cyswllt sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r undebau priodol.

## 8. Fframwaith Cynllunio

### Cyllid a Llythyrau Cylch Gwaith

8.1 Ar ôl i Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru gael ei chymeradwyo, bydd y Tribiwnlys yn derbyn datganiad ffurfiol o'r cyllid a ddyrennir iddo ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ynghyd â datganiad o unrhyw newid mewn polisïau a allai effeithio ar y Tribiwnlys.

8.2 Caiff trefniadau cynllunio cyllidebol Llywodraeth Cymru eu llywodraethu gan ofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheolau Sefydlog y Senedd.

8.3 Rhaid i'r Corff gydweithio â'r Tîm Noddi drwy ddarparu'r holl gymorth a gwybodaeth angenrheidiol i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi fwrw ymlaen â'i phenderfyniadau cynllunio cyllidebol.

8.4 Bydd y swm a nodir yn cynrychioli terfyn arian parod ar gyfer y flwyddyn i dalu holl gostau rhedeg y Tribiwnlys gan gynnwys costau hyfforddi a chost y cyngor.

8.5 Hyd yn oed os bydd unrhyw wariant arfaethedig wedi'i gynnwys yng nghyllideb y Tribiwnlys, nid yw hynny'n golygu na fydd angen cael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru os bydd y gwariant hwn y tu allan i'r terfynau dirprwyedig, neu ar gyfer cynlluniau newydd na chytunwyd arnynt yn flaenorol, neu y gellid ystyried eu bod yn newydd neu'n ddadleuol.

8.6 Bydd y Tribiwnlys yn darparu'r manylion sy'n ofynnol gan yr Is-adran Noddi i lywio penderfyniadau cynllunio cyllidebol Llywodraeth Cymru. Bydd hynny'n cynnwys gwybodaeth am berfformiad a'r sail dystiolaeth ar gyfer ymyriadau effeithiol (gan gynnwys canlyniadau gwaith ymchwil a gwerthuso) yn ogystal ag unrhyw bwysau ariannol wrth weithredu'r agenda strategol.

**Cynlluniau Gweithredol**

8.7 Oni chytunir fel arall, bydd y Tribiwnlys yn cyflwyno ei Gynllun Gweithredol drafft erbyn diwedd y mis Chwefror cyn y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. Caiff y Cynllun ei drafod â'r Is-adran Noddi i'w gymeradwyo'n derfynol erbyn 1 Ebrill.

8.8 Rhaid i'r cynllun gweithredol adlewyrchu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a rhaid i'r Corff nodi sut y bydd yn defnyddio'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf a sut y bydd yn cyfrannu at gyflawni'r saith nod llesiant.

**Cyhoeddi Cynlluniau**

8.9 Rhaid i'r Tribiwnlys sicrhau bod y cynllun gweithredol ar gael i'r cyhoedd

**Cynllunio Cyllidebol**

8.10 Caiff trefniadau cynllunio cyllidebol Llywodraeth Cymru eu llywodraethu gan ofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheolau Sefydlog y Senedd.

8.11 Rhaid i'r Tribiwnlys gydweithio â'r tîm partneriaeth drwy ddarparu'r holl gymorth a gwybodaeth angenrheidiol i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi fwrw ymlaen â'i phenderfyniadau cynllunio cyllidebol.

8.12 Bydd y Gweinidog yn cadarnhau swm y cyllid adnoddau a roddir i'r corff ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Fel rhan o ddyraniad y gyllideb adnoddau net, bydd y Gweinidog hefyd yn cadarnhau lefel yr incwm y caiff y corff ei gadw er mwyn ariannu gweithgarwch yn y flwyddyn ariannol. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd o fewn mis i'r dyddiad y cytunodd y Senedd ar y gyllideb derfynol. Rhaid i unrhyw gyllid ar gyfer y flwyddyn dan sylw gael ei awdurdodi gan y Senedd yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol.

8.13 Lle y bo'n bosibl, bydd y Gweinidog hefyd yn darparu cyllidebau adnoddau refeniw a chyfalaf dangosol ar gyfer blynyddoedd dilynol er mwyn llywio gwaith cynllunio cyllidebol. Fodd bynnag, gall manylion cyllidebau ar gyfer blynyddoedd dangosol ostwng neu gynyddu yn ôl blaenoriaethau'r Llywodraeth, newidiadau i bortffolios Gweinidogion, amrywiadau mewn cyllidebau a/neu

bryderon ynghylch effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd y corff. Efallai y bydd angen i'r Tribiwnlys fodelu gwahanol opsiynau ar gyfer gweithgarwch yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael.

8.14 Wrth bennu gofynion o ran refeniw adnoddau, caiff ystyriaeth ei rhoi i lefelau'r cronfeydd wrth gefn (os oes rhai) a ddelir gan y corff a'r incwm a ddisgwylir o ffynonellau eraill.

**Monitro Ariannol ac Adrodd am Eithriadau**

8.15 Mae'r Is-adran Noddi yn monitro gwariant ar sail cyfrifyddu adnoddau ac yn rhoi gwybodaeth i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol fel y bo'n briodol. Rhaid i'r Tribiwnlys sicrhau bod cofnodion digonol o wariant a derbyniadau yn cael eu cadw yn swyddfa'r Tribiwnlys yng Nghasnewydd.

8.16 O fewn mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol, bydd y Tribiwnlys yn cyflwyno i'r Is-adran Noddi ddatganiad ariannol yn dangos y taliadau a wnaed a'r derbyniadau a gafwyd o dan bob pennawd yn y gyllideb.

8.17 Rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu'r Is-adran Noddi yn ysgrifenedig ar unwaith os daw'n amlwg ar unrhyw adeg bod y gwariant blwyddyn lawn yn debygol o fod yn fwy na'i ddarpariaeth gymeradwy. Yn yr un modd, rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu'r Is-adran Noddi ar unwaith os daw'n amlwg ei fod yn debygol o danwario o swm sy'n fwy na'r hyn sy'n cyfateb i 2 y cant o gyfanswm y gyllideb a ddyrannwyd iddo.

8.18 Caniateir i'r Corff gario drosodd o un flwyddyn ariannol i'r nesaf unrhyw falansau arian parod a hawliwyd ond nas gwariwyd hyd at 2 y cant o'i gyllideb cymorth grant blynyddol. Rhaid i unrhyw gynnig i gario symiau sy'n fwy na'r swm hwn drosodd gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan Gyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, drwy'r Tîm Partneriaeth, fesul achos. Rhaid i unrhyw swm a gaiff ei gario drosodd sy'n fwy na'r swm y cytunwyd arno gael ei ystyried yng nghymorth grant y flwyddyn ganlynol.

8.19 Os bydd unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol, dylai'r Tribiwnlys roi manylion i'r Is-adran Noddi:

- adroddiad blynyddol ar golledion a ddilëwyd a thaliadau arbennig a wnaed neu a gymeradwywyd yn ystod y 12 mis blaenorol;
- adroddiad blynyddol yn nodi pob achos o dwyll a dwyn y mae wedi'i amlygu iddo.

## 9. Rheoli Perfformiad

**Gofynion Adrodd**

9.1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Tribiwnlys ddod i gytundeb â Llywodraeth Cymru ynghylch lefel y gwasanaeth a sicrheir mewn meysydd allweddol a'r wybodaeth am berfformiad ac allbwn a gaiff ei chasglu er mwyn monitro cynnydd.

9.2 Bydd y corff yn gweithredu systemau rheoli, gwybodaeth a chyfrifyddu a fydd yn ei alluogi i adolygu mewn modd amserol ac effeithiol ei berfformiad ariannol

ac anariannol yn erbyn y targedau a nodir yn y cynlluniau corfforaethol a gweithredol, gan ymgorffori nodau Llesiant a ffyrdd o weithio, fel y bo'n briodol. Bydd y corff yn hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau sy'n gwneud y gwaith o gyflawni ei amcanion yn fwy neu'n llai anodd.

9.3 Yn unol â'r gofynion adrodd a nodir yn y trefniadau goruchwylio sydd i'w cytuno rhwng y Tribiwnlys a'r tîm noddi, rhaid rhannu dogfennau sicrwydd allweddol, dangosyddion perfformiad allweddol (DPAau), manylion gwariant gwirioneddol a rhagamcanol a gwybodaeth fonitro arall y cytunwyd arni, â'r tîm partneriaeth ar adegau y cytunwyd arnynt er mwyn dangos bod cerrig milltir a thargedau yn cael eu cyrraedd a bod DPAau o fewn lefelau derbyniol.

9.4 Bydd Prif Weithredwr a Llywydd Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys hefyd yn cyfarfod â'r Gweinidog os oes angen i drafod cynnydd.

9.5 Mae'n ddyletswydd ar y tîm noddi i asesu'r sicrwydd risg sydd ar gael iddo o bryd i'w gilydd a gall ddiwygio lefel yr oruchwyliaeth yn unol â hynny.

**Is-gwmnïau a Chyd-fentrau**

9.6 Ni fydd y corff yn sefydlu is-gwmnïau na chyd-fentrau sy'n cynnwys sefydlu cyfryngau at ddiben arbennig – megis cwmnïau, partneriaethau neu unrhyw strwythur arall â hunaniaeth ac atebolrwydd cyfreithiol – heb sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig y tîm partneriaeth ymlaen llaw.

9.7 Caiff unrhyw is-gwmni neu gyd-fenter a reolir neu a berchenogir gan y corff ei gyfuno (chyfuno) ag ef fel sy'n ofynnol gan safonau cyfrifyddu ac, oni chytunir fel arall gan y tîm partneriaeth, bydd yn ddarostyngedig i'r rheolaethau a'r gofynion a nodir yn y ddogfen hon, ac i unrhyw ddarpariaethau pellach eraill a nodir mewn canllawiau a chyfarwyddiadau perthnasol.

## 10. Cyllidebau Refeniw

**Gwariant**

10.1 Yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a osodir gan Reoliadau 2010 neu ddeddfwriaeth berthnasol arall, cyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru, neu gan y ddogfen hon, caiff y corff, cyn gynted ag y caiff ei gyllideb ei chymeradwyo gan y Gweinidog, fynd i wariant ar y rhaglen a gymeradwyir yn ei gyllideb derfynol heb gyfeirio at y tîm partneriaeth, yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

- bydd y corff yn cydymffurfio â'r dirprwyaethau a nodir yn Atodiad B a'r terfynau yn Atodiad D. Ni ddylai'r dirprwyaethau hyn gael eu diwygio na'u torri heb gael cytundeb ysgrifenedig y tîm partneriaeth ymlaen llaw;
- rhaid i'r corff gael cymeradwyaeth ysgrifenedig cyn bwrw ymlaen â'r canlynol:
    - unrhyw gynnig y gellid ystyried ei fod yn newydd neu'n ddadleuol neu y gallai fod iddo sgil-effeithiau;
    - unrhyw newid mewn polisïau neu arferion y mae iddo oblygiadau ariannol eang;

    - unrhyw beth a allai effeithio ar lefel yr adnoddau y bydd eu hangen yn y dyfodol; neu
    - unrhyw newid sylweddol yng ngweithrediad neu gyllid unrhyw fenter neu gynllun penodol a gymeradwywyd gan y tîm partneriaeth;
- bydd y corff yn dilyn y fframwaith polisi a nodir yn “Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru” mewn perthynas â chaffael nwyddau a gwasanaethau;
- bydd y corff yn gwrthod derbyn ceisiadau am dâl ymlaen llaw ac eithrio mewn achosion eithriadol pan ystyrir y gall fod angen talu rhyw swm o arian. Mewn achosion o'r fath, rhaid dilyn yr egwyddorion a nodir yn “Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru”;
- bydd y corff yn ymgynghori â'r tîm partneriaeth cyn llunio unrhyw gytundeb lesio eiddo. Rhaid i'r tîm partneriaeth hefyd gymeradwyo ymlaen llaw unrhyw gynigion i adleoli neu symud i adeilad newydd;
- rhaid i'r corff fod yn agored a thryloyw ynglŷn â'i ddull o ymdrin â rhoddion a meddu ar bolisïau clir ar ddatgelu gwybodaeth am roi unrhyw roddion a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud hynny.

10.2 Rhaid i'r corff gofnodi a monitro gwariant yn erbyn cyllidebau adnoddau refeniw yn unol â Chanllawiau Cyllidebu Cyfunol Trysorlys EF (neu eu holynydd) Dyma'r terfynau gwariant net y caiff y corff fynd i wariant yn unol â nhw ym mhob blwyddyn ariannol – gan gynnwys unrhyw ddefnydd o gronfeydd wrth gefn y rhoddwyd darpariaeth gyllidebol ar ei gyfer – a rhaid glynu wrthynt. Ni ddylid neilltuo gwariant net uwchlaw'r terfynau hyn nes y bydd y tîm partneriaeth yn cytuno ar gyllideb ddiwygiedig i dalu am y gwariant hwnnw yn ysgrifenedig neu oni fydd yn gwneud hynny.

10.3 Ni chaiff y corff dorri elfennau cydrannol y cyllidebau adnoddau refeniw. Rhaid ceisio cymeradwyaeth ymlaen llaw ac yn ysgrifenedig os bydd y corff am wario mwy mewn un categori a llai mewn categori arall.

10.4 Mae cyllidebau adnoddau refeniw yn cwmpasu'r holl incwm a gwariant gan y corff, gan gynnwys grantiau wedi'u clustnodi a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac incwm a geir o ffynonellau eraill.

10.5 Os caiff y corff ei ddynodi mewn Gorchymyn o dan adran 126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd y cyllidebau adnoddau net a'r cymorth grant (arian parod) a bennir ar gyfer y flwyddyn dan sylw, yn destun pleidlais fel rhan o Gynnig Cyllidebol y Senedd. Cyn i'r corff gael ei ddynodi, dim ond y cymorth grant (arian parod) a fydd yn destun pleidlais fel rhan o Gynnig Cyllidebol y Senedd a bydd angen gwneud cysoniad â chyllideb adnoddau'r corff.

**Benthyciadau, Gwarantau a Buddsoddiadau**

10.6 Ni fydd y corff, heb gael caniatâd ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ymlaen llaw, yn derbyn benthyciad (gan gynnwys cyfleusterau benthyca dros dro ar ffurf cyfleuster gorddrafft a drefnwyd ymlaen llaw er mwyn pontio unrhyw fylchau rhwng trefniadau benthyca hirdymor); rhoi benthyciad; arwystlo unrhyw ased neu sicrhad; rhoi unrhyw warant neu indemniad; llythyrau cysur; na derbyn yn fwriadol unrhyw rwymedigaethau wrth gefn eraill (fel y'u disgrifir yn “Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru”) p'un a ydynt yn gyfreithiol rwymol ai peidio. Rhaid darparu'n ddigonol ar gyfer pob gwarant ariannol ac indemniad a roddir gan y

corff o dan Reoliadau 2010 yn erbyn Adnoddau Gwariant Cyhoeddus y Senedd nas hawliwyd.

10.7 Ni chaiff y corff ychwaith wneud unrhyw fuddsoddiadau heb gael cymeradwyaeth ysgrifenedig y tîm partneriaeth ymlaen llaw heblaw mewn perthynas ag arian parod dros ben a gaiff ei adneuo am gyfnod byr.

**Grantiau, Benthyciadau a Chontractau a roddir i Endidau eraill**

10.8 Rhaid i bob grant gydymffurfio â thelerau "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru" a bod yn ddarostyngedig i delerau ac amodau priodol sy'n diogelu pwrs y wlad yn ddigonol.

10.9 Er enghraifft, rhaid i delerau ac amodau ddarparu ar gyfer talu fesul rhandaliad, atgyfnerthu hawliau mynediad i swyddogion Lywodraeth Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, sicrhau y caiff buddiannau ariannol Llywodraeth Cymru eu diogelu'n ddigonol a darparu ar gyfer adfachu arian o dan amgylchiadau penodol e.e. megis os defnyddir arian grant heblaw at ddibenion cymeradwy.

10.10 Rhaid i'r corff gymryd camau i arfarnu sefyllfa ariannol yr endid sy'n derbyn, er enghraifft, drwy adolygu datganiadau ariannol a chydymffurfedd â chyrff sy'n cyflwyno adroddiadau statudol a chynnal gwiriadau ag asiantaethau gwirio credyd.

10.11 Rhaid hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw gynlluniau benthyca y mae'r corff am gymryd rhan ynddynt. Os rhoddir caniatâd, rhaid i fenthyciadau a roddir gael eu rheoli o dan drefniadau tebyg i'r rhai ar gyfer grantiau.

**Cyfundrefn Rheoli Cymorthdaliadau y DU**

10.12 Os bydd y gweithgaredd sy'n cael ei gefnogi yn un masnachol neu economaidd, bydd angen i'r holl gymorth a ddarperir gydymffurfio â chyfundrefn rheoli cymorthdaliadau y DU yn ogystal â rhwymedigaethau pob cytuniad rhyngwladol perthnasol. Rhaid i'r corff ddefnyddio'r prawf pedair elfen cyn dyfarnu cymorthdaliadau, sicrhau bod cymorth yn cydymffurfio â'r saith egwyddor ar gyfer cymhorthdal cydnaws a bod cymorthdaliadau yn cael eu rheoli'n briodol, gan gofio bod cymhorthdal yn fantais, ni waeth ar ba ffurf y bo, a roddir ar sail ddetholus i ymgymeriad sy'n cynnal gweithgarwch economaidd, gan roi mantais iddo na fyddai ganddo fel arall. Y corff sy'n gyfrifol am sicrhau lefelau priodol o dryloywder wrth adrodd ar y mathau o gymorth a ddarparwyd. Gweler canllawiau Llywodraeth y DU ar ddyfarnu cymorthdaliadau am ragor o wybodaeth:

https://www.gov.uk/government/publications/uk-subsidy-control-statutory-guidance

10.13 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu system raghysbysu ar gyfer unrhyw benderfyniadau a wneir gan y corff a allai effeithio ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Ceir manylion am y penderfyniadau hyn yn Atodiad B.

## 11. Rheoli Cyllid ac Arian Parod

### Cyllid

11.1 Y cyllid yw swm yr arian parod sy'n daladwy gan Lywodraeth Cymru i'r corff ym mhob blwyddyn er mwyn talu am ei weithrediadau ac mae'n annibynnol ar ffigurau'r gyllideb adnoddau, er ei fod yn deillio ohonynt. Nid yw'n cynnwys dibrisiant, unrhyw addasiadau cyfrifyddu eraill nac unrhyw ddarpariaeth gyllidebol a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer defnydd y corff o'i gronfeydd arian parod wrth gefn ei hun.

11.2 Bydd y tîm noddi yn talu cyflogau'r staff a chostau cysylltiedig (gan gynnwys costau pensiwn). Mewn achosion eraill mae gan y Prif Weithredwr awdurdod dirprwyedig i fynd i wariant o dan drefniadau bancio a gymeradwywyd gan yr Is-adran Noddi.

11.3 Rhaid i'r Prif Weithredwr weithredu yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch materion ariannol. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am gynnal cyfrif mewn banc lleol y mae'n ei ddefnyddio i dalu hawliadau costau teithio a chynhaliaeth aelodau a staff; cost cyrsiau hyfforddi a seminarau; costau rhedeg swyddfa gan gynnwys deunydd ysgrifennu, ffioedd postio, cyfleustodau, (trydan, nwy, dŵr, ffôn); cynnal a chadw swyddfa; a chyfarpar a chyflenwadau swyddfa; rhent ac ardrethi swyddfa; adeiladau (gan gynnwys cynnal a chadw a gwaith); a chostau mawr sy'n gysylltiedig â datblygiadau TGCh, cyfarpar cyfrifiadurol, a chontractau telathrebu hyd at y terfynau dirprwyedig.

11.4 Bydd Llywodraeth Cymru yn talu'r dyraniad cyllid blynyddol i'r Tribiwnlys ar gyfer y gwariant a gwmpesir gan baragraff 10.3 uchod mewn pedwar rhandaliad chwarterol.

11.5 Bydd y Tribiwnlys yn cadw cofnodion manwl o'r holl wariant lleol a bydd yn cyflwyno unrhyw fanylion y mae'r Is-adran Noddi yn gofyn amdanynt ar gais.

11.6 Bydd y corff yn cydymffurfio â'r egwyddor gyffredinol na wneir unrhyw daliad cyn bod angen. Cedwir balansau arian parod a gronnir yn ystod y flwyddyn o gymorth grant neu gronfeydd eraill mor isel â phosibl yn gyson â gweithrediad effeithlon y corff. Gall lefelau uchel o arian parod a gedwir effeithio ar y gyllideb adnoddau pan eir i wariant cysylltiedig ac, os na chaiff ei gadw gyda gwasanaeth bancio'r Llywodraeth, gall hefyd effeithio ar gostau benthyca'r sector cyhoeddus. At hynny, nid oes angen i gyrff cyhoeddus gadw cronfeydd arian cyhoeddus mawr wrth gefn am fod hyn yn cael ei ystyried yn ddefnydd aneffeithlon o adnoddau ariannol ac yn golygu bod Llywodraeth Cymru a'r corff yn agored i feirniadaeth y cyhoedd a chyrff archwilio.

11.7 Bydd cyllid nas hawlir erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn peidio â bod ar gael. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd ar gyfer y ddarpariaeth berthnasol yn y Cynnig Cyllidebol, os caiff cyllid ei ohirio er mwyn osgoi balansau arian parod gormodol ar ddiwedd y flwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu, yn y flwyddyn ariannol nesaf, unrhyw gyllid sydd ei angen er mwyn talu unrhyw rwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn, megis credydwyr.

11.8 Bydd y corff, o leiaf, yn parhau i roi gwybodaeth reolaidd i Lywodraeth Cymru, o leiaf bob chwarter neu'n amlach os bydd y tîm partneriaeth yn gofyn iddo wneud hynny, drwy ei hawliadau cyllid a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i fonitro'r canlynol yn llwyddiannus:

- y ffordd y mae'r corff yn rheoli arian parod;
- y cyllid y mae'n ei hawlio;
- yr alldro adnoddau rhagamcanol yn ôl penawdau adnoddau;
- data eraill sydd eu hangen ar gyfer systemau adrodd Trysorlys EF.

11.9 Rhaid pennu ffioedd a thaliadau am wasanaethau a ddarperir gan y Tribiwnlys yn unol â'r canllawiau yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a rhaid eu pennu i adennill y gost lawn oni bai bod Llywodraeth Cymru (a, lle bo angen, Trysorlys EF) yn cytuno fel arall.

11.10 Caiff y Tribiwnlys gadw unrhyw roddion, cymynroddion neu roddion tebyg a wneir at ddiben amhenodol a chânt eu trin fel derbyniadau. Rhaid i'r Tribiwnlys gadw cofnod ysgrifenedig o roddion a chymynroddion, a roddir ac a dderbynnir, ac o'u gwerth amcangyfrifedig a pha un a gânt eu gwaredu neu eu cadw.

11.11 Rhaid i'r Tribiwnlys weithredu system sy'n galluogi ei staff i roi gwybod am roddion a lletygarwch. Mae cyfrifoldeb ar bob aelod o staff i gyflwyno'r wybodaeth hon yn wirfoddol a sicrhau eu bod yn cofnodi rhoddion a lletygarwch a gynigiwyd yn ogystal â rhoddion a lletygarwch a dderbyniwyd. Drwy gadw cofnodion o'r fath, caiff aelodau unigol o staff eu hamddiffyn rhag beirniadaeth anghyfiawn a bydd yn galluogi'r Tribiwnlys i fonitro achosion lle caiff rhoddion a lletygarwch eu cynnig a'u derbyn ac unrhyw batrymau yn hynny o beth.

**Trefniadau Bancio**

11.12 Rhaid i'r Tribiwnlys sicrhau bod ei drefniadau bancio wedi'u strwythuro'n addas a'u bod yn cynrychioli'r gwerth gorau am arian, a bod dulliau effeithlon a chost-effeithiol yn cael eu defnyddio i drosglwyddo arian. Caiff trefniadau bancio'r Tribiwnlys eu cadw ar wahân i drefniadau bancio unrhyw berson, corff neu sefydliad arall.

11.13 Mae gan y Tribiwnlys gyfrif banc lleol i wneud taliadau lleol sy'n ymwneud â rhai costau dyddiol. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am warchod a chynnal y cyfrifon hyn yn briodol, gwneud taliadau, derbyn arian a gwarchod balansau arian parod.

11.14 Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am ddarparu'r cyfryw wybodaeth am drefniadau bancio sy'n ofynnol i alluogi'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol i gyflawni ei gyfrifoldebau.

**Balansau Arian Parod - Yn ystod y flwyddyn**

11.15 Rhaid cadw balansau arian parod a gronnir yn ystod y flwyddyn mor isel â phosibl yn gyson â gweithrediad effeithlon y corff.

11.16 Rhaid i'r Tribiwnlys geisio osgoi dal balans gweithredol sy'n fwy na'r hyn sy'n cyfateb i 4 y cant o'i ddyfarniad cymorth grant blynyddol pan gaiff pob

rhandaliad o gymorth grant. Bydd angen i unrhyw gyllid sy'n fwy na'r swm a ddelir gan y corff fel balans gweithredol ar ddiwedd pob cyfnod cyllido, gael ei gymeradwyo gan Gyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, drwy'r tîm noddi, a chael ei ystyried wrth benderfynu faint o arian parod a gaiff ei dalu yn y cyfnod canlynol.

**Balansau Arian Parod - Diwedd y Flwyddyn**

11.17 Caniateir i'r Tribiwnlys gario drosodd o un flwyddyn ariannol i'r nesaf unrhyw falansau arian parod a hawliwyd ond nas gwariwyd hyd at 2 y cant o'i ddyfarniad cymorth grant blynyddol. Rhaid i unrhyw gynnig i gario drosodd symiau sy'n fwy na'r swm hwn gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan Gyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, drwy'r tîm partneriaeth, fesul achos. Rhaid i unrhyw swm a gaiff ei gario drosodd sy'n fwy na'r swm y cytunwyd arno gael ei ystyried yng nghymorth grant y flwyddyn ganlynol,

**Llog a Enillir ar Falansau Arian Parod a Balansau Banc**

11.18 Rhaid i'r holl log, yn glir o unrhyw daliadau banc, a enillir gan y corff ar ei falansau arian parod a'i falansau banc gael ei ddatgan ym mhob cyfnod hawlio ar ffurflen hawlio'r corff a chael ei ildio i Drysorlys EF drwy Gronfa Gyfunol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 12. Darbodusrwydd, Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd

**Y Sail Dystiolaeth**

12.1 Er mwyn sicrhau gwerth am arian, rhaid bod gan y Tribiwnlys systemau priodol, a'r adnoddau, er mwyn sicrhau bod ei bolisïau a'i raglenni yn seiliedig ar dystiolaeth o ran y ffordd y cawsant eu datblygu a'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith a'u gwerthuso.

12.2 Rhaid i'r Tribiwnlys hefyd sicrhau bod ei ddull o gynnal arfarniadau a gwerthusiadau yn gwbl gyson â'r egwyddorion a nodir yn y canllawiau.

**Adolygiad wedi'i Deilwr**a

12.3 Bydd y tîm noddi a'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn ystyried bob blwyddyn yr angen i gynnal Adolygiad wedi'i Deilwra o'r corff, a fydd yn seiliedig ar y fframwaith risg ac yn gymesur â maint y sefydliad. Cynhelir adolygiadau o leiaf unwaith bob pum (5) mlynedd a chaiff y corff ei hysbysu ymlaen llaw y bydd adolygiad yn cael ei gynnal. Diben yr adolygiad yw rhoi sicrwydd i'r Gweinidog fod y Tribiwnlys yn dal i fod yn addas at y diben. Bydd yr adolygiad yn ystyried cryfderau a gwendidau'r Tribiwnlys ac a allai gyflawni ei swyddogaethau yn fwy effeithiol ac effeithlon, gan gynnwys nodi'r potensial i wneud arbedion effeithlonrwydd a, lle y bo'n briodol, ei allu i gyfrannu at dwf economaidd. Bydd hefyd yn ystyried y trefniadau rheoli a llywodraethu sydd ar waith er mwyn sicrhau bod y Tribiwnlys a Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio ag egwyddorion cydnabyddedig llywodraethu da.

Cymeradwywyd telerau'r Ddogfen Fframwaith hon ar gyfer y Tribiwnlys gan y Gweinidog ar [nodwch y dyddiad].

Llofnodwyd

Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-adran Polisi a Diwygio Ardrethi Annomestig

Dyddiad………15 Ebrill 2026………………………………………….

Llofnodwyd…………………………………………………

Prif Weithredwr, Tribiwnlys Prisio Cymru

Dyddiedig………10 Awst 2026………………………………………….

## 13. Atodiad A - Prif Nodau a Swyddogaethau'r Is-adran Noddi

13.1 Prif nodau'r Is-adran Noddi yw:

- meithrin cydberthynas â'r Tribiwnlys sy'n seiliedig ar gydymddiriedaeth a chyd-barch a chyfathrebu agored a gonest;
- sicrhau bod nodau ac amcanion y Tribiwnlys yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo amcanion strategol ehangach Llywodraeth Cymru.
- rhoi'r cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen ar y Tribiwnlys neu y gall ofyn amdanynt er mwyn cyflawni ei amcanion;
- annog a hyrwyddo safonau uchel o ran llywodraethiant corfforaethol ac atebolrwydd ariannol yn y Tribiwnlys er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol.
- Mae swyddogaethau Is-adran Noddi'r Tribiwnlys sy'n sail i'r prif nodau hynny wedi'u nodi yn y Ddogfen Fframwaith hon. Yn ogystal, bydd swyddogaethau'r Is-adran Noddi yn cynnwys:
- cyfleu polisïau Llywodraeth Cymru i'r Tribiwnlys a rhoi cyngor iddo ar sut i ddehongli polisïau;
- cyflwyno cyngor i Weinidogion Cymru;
- darparu gwybodaeth yn ôl yr angen i holl Bwyllgorau perthnasol y Senedd ar weithgareddau’r Tribiwnlys;
- derbyn yr wybodaeth a ddarperir gan y Tribiwnlys o dan y Ddogfen Fframwaith hon a gweithredu arni;
- gwirio crynodeb gwariant misol y Tribiwnlys ac awdurdodi talu rhandaliadau cyllid chwarterol i'r Tribiwnlys;
- cynghori Gweinidogion Cymru ar osod targedau a dangosyddion perfformiad priodol;
- monitro ac adolygu perfformiad yn erbyn y targedau a osodwyd ac adrodd i Weinidogion Cymru fel y bo'n briodol;
- monitro sefyllfa ariannol y Tribiwnlys drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r Tribiwnlys a derbyn ffurflenni ganddo, gan adrodd i Weinidogion Cymru fel y bo'n briodol;
- sicrhau bod unrhyw geisiadau i'r Tribiwnlys am wybodaeth yn cael eu cyflwyno mewn digon o amser i allu paratoi ateb ystyriol llawn, oni bai bod amgylchiadau'n golygu na ellir gwneud hynny;
- rhoi canllawiau i'r Tribiwnlys, fel y bo'n briodol;
- dwyn unrhyw bryderon a fynegir ynghylch gweithgareddau’r Tribiwnlys i sylw’r Cyngor Llywodraethu a’r Prif Weithredwr; a gofyn am esboniadau a sicrwydd bod unrhyw gamau unioni priodol wedi'u cymryd neu y cânt eu cymryd;
- cynnal asesiad o weithgareddau’r Tribiwnlys o bryd i’w gilydd;
- adolygu telerau'r Ddogfen Fframwaith hon pan fo angen.

## 14. Atodiad B – Dirprwyaethau

Trefniadau Galw i Mewn Cyrff Cyhoeddus –
Trefniadau Cymeradwyo, Rhaghysbysu a Hysbysu.

1) Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus a'r Prif Weinidog wedi cytuno ar drefniadau trosiannol i roi sicrwydd iddynt hwy a'r Ysgrifennydd Parhaol nad yw dileu'r gweithdrefnau galw i mewn â Chyrff Hyd Braich yn peri unrhyw risg i Lywodraeth Cymru nac i'r broses o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu yn effeithiol. Diben y trefniadau yw rhoi data sylfaenol i Lywodraeth Cymru y gall eu defnyddio i asesu nifer y materion lle mae cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo a bod yn ymwybodol o'r dull gweithredu y mae pob corff yn ei fabwysiadu mewn perthynas â'r trefniadau newydd.

2) Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus a Phrif Weinidog Cymru wedi cytuno y bydd yn rhoi trefniadau Cymeradwyo, Rhaghysbysu a Hysbysu ar waith ar gyfer penderfyniadau a oedd yn destun trefniadau galw i mewn yn flaenorol. Bwriedir i'r trefniadau sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y ffordd y mae'r broses newydd yn gweithio yn ymarferol, yn hytrach na pharhau â mecanwaith ar gyfer cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

3) Rhaid i bob cais am gymeradwyaeth neu i gyflwyno rhaghysbysiadau neu hysbysiadau, gael ei gyfeirio at y tîm partneriaeth yn y lle cyntaf.

4) Bydd Swyddogion Cyfrifyddu mewn Cyrff Cyhoeddus yn atebol am y penderfyniadau y mae'n ofynnol rhoi gwybod amdanynt. Caiff Llywodraeth Cymru roi cyngor ar faterion y mae angen rhoi gwybod amdanynt ymlaen llaw, fel y nodir yn Nhabl B, ond, yn y pen draw, y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad. Os bydd y corff yn penderfynu anwybyddu cyngor Llywodraeth Cymru, bydd y Tîm Partneriaeth yn argymell i'r Gweinidog y dylid cynnal trafodaeth â'r Cadeirydd gyda'r Gweinidog yn cadw'r hawl i ddiystyru penderfyniad sy'n perthyn i'r categori hwn os bydd y corff wedi penderfynu diystyru cyngor Llywodraeth Cymru, a hynny am reswm na ellir ei gyfiawnhau.

5) Yr eithriadau fydd y penderfyniadau a geir yn Nhabl A pan mai Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am y penderfyniad.

**Tabl A Cymeradwyaethau**

| **Penderfyniad** | **Cymeradwyo** |
|---|---|
| Penodi Prif Weithredwr | Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys a'r Gweinidog |
| Yn achos Cyrff Cyhoeddus yr ystyrir eu bod yn sefydliadau Llywodraeth ganol at ddibenion cyfrifyddu:<br>Arian parod a gaiff ei gario drosodd yn ystod y flwyddyn sy'n fwy na 4% o gyfanswm y Cymorth Grant/ Arian Parod<br>Arian parod a gaiff ei gario drosodd ar ddiwedd y flwyddyn sy'n fwy na 2% o gyfanswm y Cymorth Grant/ Arian Parod<br>Sefydlu is-gwmnïau/cyd-fentrau newydd<br>Unrhyw fenthyciadau, gwarantau, indemniad neu fuddsoddiad sy'n ymwneud ag arian cyhoeddus<br>Derbyn incwm i ariannu gweithgareddau yn y flwyddyn ariannol sy'n fwy na'r hyn a nodir yn y llythyr cyllido. | Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru |
| Unrhyw benderfyniad y nodir mewn deddfwriaeth fod angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar ei gyfer e.e. mae Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn nodi bod angen cymeradwyaeth y Gweinidog ar gyfer cynllun corfforaethol blynyddol | Y Gweinidog |

**Tabl B Trefniadau Rhaghysbysu**

Dylai Prif Swyddogion Gweithredol hysbysu eu Tîm Partneriaeth am unrhyw benderfyniadau arfaethedig sy'n perthyn i'r categorïau canlynol pan fyddant yn codi er mwyn i Lywodraeth Cymru roi cyngor priodol. Bydd Timau Partneriaeth yn ceisio ymateb, hyd y gellir, o fewn pythefnos. Os bydd y Corff yn penderfynu anwybyddu cyngor Llywodraeth Cymru, caiff y Tîm Partneriaeth uwchgyfeirio'r mater at y Gweinidog sy'n cadw'r hawl i ddiystyru penderfyniad a wneir gan Gorff Cyhoeddus y penderfynir, ar ôl trafod, na ellir ei gyfiawnhau.
Dylai'r penderfyniadau hyn hefyd fod yn rhan o drafodaeth 'cymryd stoc' mewn cyfarfodydd monitro chwarterol:

| **Penderfyniad** |
| --- |
| Cynigion newydd neu ddadleuol neu gynigion y gallai fod iddynt sgil-effeithiau yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru gan gynnwys, ymhlith eraill, gynigion:<br>sy'n arfer ansafonol<br>sy'n wleidyddol sensitif a/neu sy'n debygol o gael sylw negyddol yn y cyfryngau<br>a allai gael canlyniadau annymunol ar gyfer y sefydliad a/neu'r sector cyhoeddus ehangach |
| Unrhyw gam gweithredu y mae'r Cyngor Llywodraethu o'r farn y byddai'n mynd yn groes i egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb, gweinyddu darbodus, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac y mae'r Prif Swyddog Gweithredol wedi cynghori na ddylid ei gymryd. |
| Newid mewn polisïau neu arferion y mae iddo oblygiadau ariannol eang |
| Tâl a thelerau ac amodau staff – mae'r rhain wedi'u hamlinellu yng nghontractau unigol y staff ac fel y manylir yn y Cytundeb Cenedlaethol ar Gyflog ac Amodau ar gyfer Staff Llywodraeth Leol (Y Llyfr Gwyrdd) a pholisïau'r Tribiwnlys o fewn telerau'r Llyfr Gwyrdd. Rhaid i'r Tribiwnlys geisio cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru cyn newid telerau ac amodau gwasanaeth. |
| Unrhyw beth a allai effeithio ar lefel yr adnoddau y bydd eu hangen yn y dyfodol, e.e. pwysau cyllidebol neu danwariannau posibl. |
| Unrhyw drafodiad gwariant unigol sy'n fwy na £10,000. |

**Trefniadau Hysbysu Eraill**
Yn ystod y cyfnod pontio, dylai Prif Swyddogion Gweithredol hysbysu timau partneriaeth yn eu cyfarfodydd monitro chwarterol am unrhyw benderfyniadau y maent wedi'u gwneud neu y maent yn debygol o'u gwneud yn ystod y chwarter nesaf a fyddai wedi cael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru yn y gorffennol.

## 15. Atodiad C - Crynodeb o'r Gofynion o ran Cymeradwyaeth a'r Terfynau Dirprwyo

| | **Pwnc** | **Terfyn / Sylwadau** |
| --- | --- | --- |
| 1. | Staffio | Mae niferoedd staff yn amodol ar reoli costau rhedeg.<br><br>Llywodraeth Cymru fydd yn gweinyddu'r system i dalu'r holl gostau staffio (gan gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr). Mae cyflogau'n gysylltiedig â cholofnau cyflog awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. |
| 2. | Gwariant cyfalaf | Dim awdurdod dirprwyedig cyffredinol. Rhaid i Brif Weithredwr y Tribiwnlys geisio cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw brosiect cyfalaf arfaethedig. |
| 3. | Cyfarpar TGCh/cyfrifiaduron | Mae gan Brif Weithredwr y Tribiwnlys awdurdod dirprwyedig i awdurdodi taliadau ar eitemau sy'n ymwneud â TGCh. Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am wariant arfaethedig a gwariant yr aed iddo. |
| 4. | Caffael/Tendr, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw, gwaith bach a mawr | Mae gan y Prif Weithredwr awdurdod dirprwyedig i awdurdodi gwariant. |
| 5. | Cyfrifon Arian Traul | Terfyn o £100 a therfyn o £100 fesul trafodiad. |
| 6. | Cario drosodd ar ddiwedd y flwyddyn | Gellir cadw gwariant heb ei filio ar gyfer pryniannau sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol sy'n dod i ben. Y terfyn uchaf yw 2% o'r gyllideb flynyddol, rhaid ildio arian uwchlaw'r terfyn hwn i Lywodraeth Cymru. |
| 7. | Cael benthyg, buddsoddi a rhoi benthyg | Nid oes unrhyw ddirprwyaeth o ran rhoi benthyg a chael benthyg cyllid. Dim ond mewn perthynas ag adneuon tymor byr y caniateir gwneud buddsoddiadau. |
| 8. | Adeiladau | Rhaid i'r Tribiwnlys wneud cais i Lywodraeth Cymru er mwyn newid gofynion gofod/adeiladau. |
| 9. | Colledion a thaliadau arbennig | Dim awdurdod dirprwyedig cyffredinol. Rhaid i'r Tribiwnlys gael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru i ddileu unrhyw golledion a/neu wneud unrhyw daliadau arbennig. |

## 16. Atodiad D - Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu

### MEMORANDWM AR GYFER SWYDDOG CYFRIFYDDU TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

### CYFRIFOLDEBAU SWYDDOG CYFRIFYDDU UN O GYRFF HYD BRAICH LLYWODRAETH CYMRU

### Cyflwyniad

1. Mae'r Memorandwm hwn yn nodi cyfrifoldebau uwch-swyddog (fel arfer y Prif Weithredwr neu swyddog cyfatebol) un o Gyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru - y “corff”- sydd wedi'i ddynodi'n Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y corff hwnnw. Mae ei gynnwys hefyd yn gymwys i uwch-swyddogion cyrff hyd braich nad oes Swyddog Cyfrifyddu wedi'i ddynodi ar eu cyfer. Nid yw'n gymwys i uwch-swyddogion y cyrff hyd braich hynny (megis Tribiwnlysoedd a Chyrff Cynghori) a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (yn hytrach na thrwy grant neu gymorth grant) y mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, felly, yn atebol amdanynt.

2. Ariennir cyrff hyd braich mewn sawl ffordd, er enghraifft drwy gymorth grant, grant, incwm o ffioedd a thaliadau neu arian o'r sector preifat. Caiff Swyddog Cyfrifyddu ei ddynodi ar gyfer y cyrff hyd braich hynny a ariennir gan grant neu gymorth grant mawr neu pan fydd cyfrifon y corff yn cael eu gosod gerbron Senedd Cymru. Pan fydd hynny er budd atebolrwydd cyhoeddus, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn dynodi Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer corff sy'n cael ei gyllid o ffynonellau eraill yn bennaf. Mae'n egwyddor bwysig, waeth beth fo ffynhonnell y cyllid, fod Swyddogion Cyfrifyddu yn atebol i Senedd y DU a Senedd Cymru am yr holl adnoddau a reolir ganddynt.

3. Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru, a ddynodwyd yn unol ag Adran 129 (6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), fel y'i diwygiwyd, sy'n gyfrifol am sicrhau y penodir Swyddogion Cyfrifyddu priodol i gyrff cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn ei dro, wedi dirprwyo i'w Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, a ddynodwyd o dan adran 133 (2) o Ddeddf 2006, y cyfrifoldeb am ddynodi uwch-swyddogion cyrff hyd braich y mae eu Grwpiau yn eu goruchwylio yn Swyddogion Cyfrifyddu.

### Cyfrifoldebau Cyffredinol y Swyddog Cyfrifyddu

4. Mae'r penderfyniad i'ch dynodi'n Swyddog Cyfrifyddu yn adlewyrchu'r ffaith, o dan y Cyngor Llywodraethu, bod gennych gyfrifoldeb cyffredinol am drefnu, rheoli a staffio'r corff ac am ei weithdrefnau mewn materion ariannol a materion eraill.

5. Rhaid i chi sicrhau bod trefniadau rheoli ariannol o safon uchel ar waith yn y corff hyd braich yn gyffredinol; bod systemau a gweithdrefnau ariannol yn helpu i gynnal busnes mewn modd effeithlon a darbodus ac yn diogelu priodoldeb rheoleidd-dra ariannol ym mhob rhan o'r corff; ac y rhoddir sylw llawn i ystyriaethau ariannol, gan gynnwys dichonoldeb a chynaliadwyedd, mewn penderfyniadau ar gynigion polisi.

**Cyfrifoldebau Penodol y Swyddog Cyfrifyddu**

6. Hanfod rôl y Swyddog Cyfrifyddu yw cyfrifoldeb personol am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus rydych yn atebol amdano; am gadw cyfrifon priodol; am weinyddu'n ddarbodus; am osgoi gwastraff ac afradlondeb; ac am ddefnyddio adnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol.

7. Fel y Swyddog Cyfrifyddu rhaid i chi wneud y canlynol:
   a) llofnodi'r cyfrifon a bennir i chi ac, wrth wneud hynny, dderbyn cyfrifoldeb personol am eu cyflwyno'n briodol fel y rhagnodir mewn deddfwriaeth, y cyfarwyddyd cyfrifon a chanllawiau perthnasol;

   b) sicrhau bod eich sefydliad yn cydymffurfio â gofynion y Ddogfen Fframwaith, y caiff gweithdrefnau ariannol priodol eu dilyn ac y cedwir cofnodion cyfrifyddu ar ffurf sy'n gweddu i ofynion gweithgarwch rheoli yn ogystal ag ar y ffurf a ragnodir ar gyfer cyfrifon cyhoeddedig;

   c) sicrhau bod yr adnoddau rydych yn gyfrifol amdanynt yn cael eu rheoli'n briodol ac yn dda (gweler paragraff 9 isod) a'u diogelu, gydag archwiliadau annibynnol ac effeithiol o falansau arian parod sydd yn nwylo unrhyw swyddog;

   d) sicrhau bod asedau rydych yn gyfrifol amdanynt, megis tir, adeiladau neu eiddo arall, gan gynnwys storfeydd a chyfarpar, yn cael eu rheoli a'u diogelu yr un mor ofalus, a gydag archwiliadau fel y bo'n briodol;

   e) wrth ystyried cynigion polisi sy'n ymwneud â'r gwariant neu'r incwm rydych yn gyfrifol amdano, sicrhau y rhoddir sylw llawn i'r holl ystyriaethau ariannol, gan gynnwys dichonoldeb a chynaliadwyedd, ac y caiff gwerth am arian y cynnig ei asesu yn unol â'r egwyddorion a nodir yng nghanllawiau'r Trysorlys, “The Green Book: Appraisal and Evaluation in Central Government”; y rhoddir ystyriaeth lawn i unrhyw faterion sy'n ymwneud â phriodoldeb a rheoleidd-dra; ac y defnyddir technegau rheoli rhaglenni a phrosiectau o ansawdd da fel y bo'n briodol i olrhain cynnydd a, lle y bo angen, addasu cynnydd. Lle y bo angen, dylai unrhyw ystyriaethau o'r fath gael eu dwyn i sylw'r Cyngor Llywodraethu;

   f) sicrhau y nodir risgiau (p'un a ydynt yn gysylltiedig â chyflawni amcanion busnes, rheoleidd-dra a phriodoldeb neu werth am arian), yr asesir eu difrifoldeb ac y rhoddir systemau priodol ar waith i'w rheoli;

   g) sicrhau bod eich dull o reoli cyfleoedd a risg yn cyflawni'r cydbwysedd cywir sy'n gymesur â busnes eich sefydliad a'ch parodrwydd i dderbyn risg;

   h) sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer mynd i'r afael â thwyll ac y cydymffurfir â gweithdrefnau ar gyfer delio ag achosion a amheuir;

   i) llofnodi'r Datganiad Llywodraethu

8. Rhaid i chi sicrhau y cynhelir system rheolaeth fewnol gadarn yn eich sefydliad er mwyn helpu i gyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion a dylech adolygu effeithiolrwydd y system yn rheolaidd. Rhaid i chi allu rhoi sicrwydd i'r Senedd a'r cyhoedd fod safonau uchel o briodoldeb yn cael eu cynnal wrth reoli arian cyhoeddus yn eich sefydliad. Adroddir ar hyn yn eich Datganiad Llywodraethu blynyddol.

9. Dylech hefyd sicrhau bod rheolwyr ar bob lefel:
   a) yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u hamcanion a bod ganddynt yr adnoddau i asesu a, lle y bo'n bosibl, fesur allbynnau neu berfformiad mewn perthynas â'r amcanion hynny;
   b) yn cael cyfrifoldebau clir am wneud y defnydd gorau o adnoddau (sef y rhai a ddefnyddir ar orchymyn y rheolwyr eu hunain ac unrhyw adnoddau a ddarperir i sefydliadau neu unigolion y tu allan i'r corff hyd braich), gan gynnwys craffu'n feirniadol ar allbwn a gwerth am arian;
   c) yn cael yr wybodaeth (yn enwedig am gostau), yr hyfforddiant a'r cyngor arbenigol sydd eu hangen arnynt i arfer eu cyfrifoldebau yn effeithiol.

10. Rhaid i chi wneud yn siŵr bod eu trefniadau ar gyfer dirprwyo yn hyrwyddo rheolaeth dda a'u bod yn cael eu cefnogi gan y staff angenrheidiol sy'n meddu ar y cydbwysedd priodol o sgiliau. Dylai trefniadau ar gyfer archwilio mewnol gyd-fynd â'r amcanion, y safonau a'r arferion a nodir yn "Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth", a gyhoeddir gan Drysorlys EF.

**Gweithio mewn partneriaeth**

11. Yn fwyfwy, mae cyrff cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill er mwyn cyflawni eu nodau a'u hamcanion strategol. Dylech sicrhau bod effaith ehangach y gweithgareddau rydych yn gyfrifol amdanynt yn cael eu nodi'n gywir a, lle y bo'n briodol, eu hystyried. Caiff eich sefydliad gyfrannu at weithgaredd ar y cyd a arweinir gan sefydliad arall (p'un a yw yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat) er mwyn cyflawni ei amcanion.

12. Gellir ystyried bod y cyfraniad yn briodol hyd yn oed pe na fyddai'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni amcanion ehangach eich sefydliad. O dan y fath amgylchiadau, bydd angen i chi ddangos bod y cyfranogiad yn cynnig gwerth da am arian yn gyffredinol a bod rheolaethau priodol ar waith er mwyn diogelu priodoldeb a sicrhau atebolrwydd priodol.

13. Dylai Swyddogion Cyfrifyddu gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am ddarparu gwasanaethau drwy drefniadau cydweithio. Os byddwch chi a Swyddog Cyfrifyddu arall yn cymryd cyfrifoldeb ar y cyd, bydd angen dogfennu'r llinellau cyfrifoldeb yn glir er mwyn sicrhau eglurder llwyr o ran yr hyn y mae pob un ohonoch yn gyfrifol ac yn atebol amdano.

**Rheoleidd-dra a Phriodoldeb Gwariant**

14. Mae gennych gyfrifoldeb penodol am sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Senedd Cymru a Senedd y DU o ran rheoli gwariant ac unrhyw ofynion a osodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ofyniad sylfaenol mai dim ond i'r graddau ac at y dibenion a awdurdodir gan Senedd Cymru y dylid defnyddio'r

cyllid. Rhaid tynnu sylw'r Senedd at golledion neu daliadau arbennig, drwy anodi'r cyfrif perthnasol yn briodol.

15. Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod cymeradwyaeth benodol ar gyfer gwariant wedi'i chael gan Lywodraeth Cymru ym mhob achos lle mae ei hangen, gan gynnwys achosion sy'n cynnwys cyflog, pensiynau ac amodau gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw wariant nas cwmpesir gan unrhyw awdurdodau a ddirprwywyd gan Lywodraeth Cymru i'r corff hyd braich. Nid yw awdurdod dirprwyedig yn dileu'r rhwymedigaeth i gyflwyno unrhyw gynigion newydd neu ddadleuol neu gynigion y gallai fod iddynt sgil-effeithiau, i Lywodraeth Cymru. Chi hefyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod mecanwaith priodol ar waith ar gyfer casglu'r holl incwm a derbyniadau o unrhyw fath rydych yn gyfrifol amdanynt a rhoi cyfrif amdanynt mewn ffordd briodol.

**Cyngor i'r Cyngor Llywodraethu**

16. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn tynnu sylw'r Cyngor Llywodraethu at unrhyw wrthdaro rhwng ei gyfarwyddiadau ef a'ch dyletswyddau chi fel y Swyddog Cyfrifyddu. Ni allwch dderbyn nodau na pholisïau'r Cyngor Llywodraethu heb eu harchwilio. Nid oes un dull penodol o gofrestru gwrthwynebiadau, ond dylech nodi union natur y gwrthwynebiadau hynny. Y prawf allweddol yw a allech gyfiawnhau'r gweithgaredd arfaethedig pe gofynnid i chi ei amddiffyn yn gyhoeddus.

17. Os bydd y Cyngor Llywodraethu, er gwaethaf eich cyngor, yn penderfynu parhau â cham gweithredu rydych wedi'i gynghori i beidio â'i gymryd, dylech ofyn i'r Cyngor Llywodraethu am gyfarwyddyd ffurfiol i fwrw ymlaen, gan nodi'r posibilrwydd y bydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd yn cynnal ymchwiliad. Mae cyfarwyddiadau o'r fath yn anghyffredin. Isod, rhoddir enghreifftiau o achosion lle mae'r weithdrefn hon yn briodol:

Rheoleidd-dra – os bydd cynnig y tu allan i bwerau cyfreithiol eich sefydliad, cydsyniadau Senedd Cymru neu Senedd y DU neu ddirprwyaethau Llywodraeth Cymru neu os na fydd yn cyd-fynd â chyllidebau gwariant y cytunwyd arnynt;

Priodoldeb – petai cynnig yn mynd yn groes i weithdrefnau rheoli neu ddisgwyliadau Senedd Cymru neu Senedd y DU;

Gwerth am Arian – petai cynnig amgen, neu wneud dim, yn cynnig gwerth gwell am arian: er enghraifft, canlyniad rhatach, o ansawdd uwch neu fwy effeithiol;

Dichonoldeb – os bydd cryn amheuaeth a ellir rhoi'r cynnig ar waith yn gywir, yn gynaliadwy neu'n unol â'r amserlen fwriadedig.

18. Pan roddir cyfarwyddyd, rhaid i chi wneud y canlynol:
- Dilyn cyfarwyddyd y Cyngor Llywodraethu ar unwaith;
- Anfon copi o'r papurau perthnasol at Archwilydd Cyffredinol Cymru a'ch tîm partneriaeth. Fel arfer, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dwyn y mater

i sylw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Ar yr amod eich bod wedi dilyn y weithdrefn hon, gellir disgwyl i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gydnabod nad oes gennych chi, yn eich rôl fel y Swyddog Cyfrifyddu, unrhyw gyfrifoldeb personol am y trafodiad. Rhaid i chi drefnu i fodolaeth y cyfarwyddyd gael ei chyhoeddi yn yr adroddiad a'r cyfrifon, oni bai bod yn rhaid i'r mater gael ei gadw'n gyfrinachol;

- Os gofynnir i chi wneud hynny, er enghraifft yn ystod gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, esbonio'r hyn y mae'r Cyngor Llywodraethu wedi'i wneud. Mae hyn yn parchu hawliau'r Cyngor Llywodraethu i gyngor gonest, gan ddiogelu ansawdd trafodaeth fewnol ar yr un pryd.

**Ymddangos gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin.**

19. Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y mae eich sefydliad wedi defnyddio ei adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, gallwch ddisgwyl cael eich galw i ymddangos gerbron y Pwyllgor priodol o bryd i'w gilydd, fel arfer gyda'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol neu, o bosibl, gyda'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, er mwyn rhoi tystiolaeth ar yr adroddiadau sy'n deillio o'r archwiliadau hyn ac ateb cwestiynau'r Pwyllgorau am eich adroddiad blynyddol a'ch cyfrifon.

20. Caiff Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ofyn i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd gymryd tystiolaeth ar ei ran ac adrodd yn ôl iddo ar y dystiolaeth a gafwyd. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, gallwch gael eich cefnogi gan swyddogion eraill, a gaiff gymryd rhan yn y broses o roi'r dystiolaeth. Wrth roi tystiolaeth, disgwylir i chi roi i'r naill Bwyllgor neu'r llall esboniadau o unrhyw arwyddion o wendid yn y materion yr ymdrinnir â nhw ym mharagraffau 4-10 uchod, y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru neu'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol wedi tynnu eu sylw atynt neu y byddant, o bosibl, am eich holi amdanynt.

21. Yn ymarferol, fel arfer bydd Swyddog Cyfrifyddu wedi dirprwyo awdurdod yn eang ond ni all wadu cyfrifoldeb ar y sail honno. Ac ni fydd y Swyddog Cyfrifyddu cyfredol, drwy gonfensiwn, yn gwrthod ateb cwestiynau os digwyddodd yr achosion cyn iddo gael ei benodi i'r swydd: Gellir disgwyl i'r Pwyllgorau beidio â mynnu bod gan y Swyddog Cyfrifyddu cyfredol gyfrifoldeb personol o dan y fath amgylchiadau.

22. Rhoddir pwys mawr ar gywirdeb tystiolaeth a chyfrifoldeb tystion i sicrhau hynny. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, dylech sicrhau eich bod yn cael eich briffio'n ddigonol ac yn gywir am faterion sy'n debygol o godi yn ystod y cyfarfod. Gellir gofyn i'r Pwyllgorau am ganiatâd i ddarparu gwybodaeth nad oes gennych ar y pryd drwy gyflwyno nodyn yn ddiweddarach. Os ceir, ar ôl hynny, fod y dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgorau yn cynnwys gwallau, dylid hysbysu'r Pwyllgorau amdanynt cyn gynted â phosibl.

23. Ar y cyfan, mae'r rheolau a'r confensiynau sy'n llywodraethu ymddangosiadau swyddogion gerbron Pwyllgorau Seneddol yn gymwys i'r Pwyllgorau hyn, gan gynnwys y confensiwn cyffredinol na fydd swyddogion yn datgelu'r cyngor a roddwyd i'r Cyngor Llywodraethu. Serch hynny, mewn achos lle y rhoddwyd cyfarwyddyd ynglŷn â mater yn ymwneud â phriodoldeb neu reoleidd-dra, byddai cyngor y Swyddog Cyfrifyddu, a phenderfyniad y Cyngor Llywodraethu i'w ddiystyru, yn cael eu datgelu.

24. Mewn achos lle y diystyrwyd cyngor Swyddog Cyfrifyddu mewn mater yn ymwneud â gwerth am arian neu ddichonoldeb (yn hytrach na rheoleidd-dra neu briodoldeb), bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru neu'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol wedi egluro i'r Pwyllgor perthnasol bod cyngor y Swyddog Cyfrifyddu wedi cael ei ddiystyru. Fodd bynnag, dylech osgoi datgelu'r cyngor a roddwyd neu ddatgysylltu eich hun oddi wrth y penderfyniad. Yn amodol ar gytundeb y Cyngor Llywodraethu, lle y bo hynny'n briodol, dylech fod yn barod i esbonio'r cyfryw benderfyniad a gallwch gael eich galw i fodloni'r Pwyllgor bod yr holl ystyriaethau ariannol perthnasol wedi'u dwyn i sylw'r Cyngor Llywodraethu cyn i'r penderfyniad gael ei wneud. Yna, y Pwyllgor fydd yn gyfrifol am fynd ar drywydd y mater gyda'r Cyngor Llywodraethu os bydd am wneud hynny.

**Absenoldeb Swyddog Cyfrifyddu**

25. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, dylech sicrhau eich bod ar gael, fel arfer, er mwyn ymgynghori ag ef ac, yn ystod unrhyw gyfnod dros dro pan na fydd ar gael oherwydd salwch neu achos arall, neu yn ystod cyfnodau arferol o wyliau blynyddol, y bydd uwch-swyddog yn y sefydliad a all weithredu ar eich rhan os bydd angen.

26. Os bydd swydd y Prif Weithredwr (neu swyddog cyfatebol) yn wag neu os daw'n amlwg eich bod chi, fel y Swyddog Cyfrifyddu, yn analluog i'r graddau na allwch gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, dylid hysbysu'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol er mwyn i Swyddog Cyfrifyddu dros dro gael ei ddynodi'n ffurfiol, tra'n aros i'r Swyddog Cyfrifyddu ddychwelyd neu i Swyddog Cyfrifyddu newydd gael ei benodi.

27. Gellir disgwyl i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ohirio gwrandawiad os bydd y Swyddog Cyfrifyddu perthnasol yn anhwylus. Os na allwch chi, fel y Swyddog Cyfrifyddu, lofnodi'r cyfrifon mewn pryd i'w cyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru, a hynny am eich bod yn analluog neu'n absennol, gellir cyflwyno copïau heb eu llofnodi tra'n aros i chi ddychwelyd. Os na allwch lofnodi'r cyfrifon mewn pryd i'w hargraffu, dylai'r Swyddog Cyfrifyddu dros dro eu llofnodi yn eich lle.

## 17. Atodiad E - Rhestr o Ganllawiau Corfforaethol i bob rhan o'r Llywodraeth

**Rhestr o Ganllawiau a Chyfarwyddiadau Corfforaethol i bob rhan o'r Llywodraeth**

- Y ddogfen hon;
- Llythyr cylch gwaith y Gweinidog i'r corff;
- "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru";
- Memorandwm Llywodraeth Cymru, "Accountabilities and Responsibilities of the Chief Executive as Accounting Officer";
- Cyfarwyddyd Cyfrifon y corff;
- Corporate Governance in Central Government Departments: Code of Good Practice;
- "Government Internal Audit Standards", Trysorlys EF;
- "Managing the Risk of Fraud", Trysorlys EF; http://www.hm-treasury.gov.uk/d/managing_the_risk_fraud_guide_for_managers.pdf
- "Executive NDPBs - Annual Reports and Accounts Guidance", Trysorlys EF;
- "Departmental Banking: A Manual for Government Departments", Trysorlys EF (a gyhoeddwyd fel Atodiad 5.7 i "Managing Public Money"); http://www.hm-treasury.gov.uk/d/mpm_annex5.7.pdf
- "Regularity, Propriety and Value for Money", Trysorlys EF; http://www.hm-treasury.gov.uk/d/Reg_Prop_and_VfM-November04.pdf
- "Green Book – Appraisal and Evaluation in Central Government" Trysorlys EF; http://www.hm-treasury.gov.uk/d/green_book_complete.pdf
- Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio Trysorlys EF; http://www.hm-treasury.gov.uk/d/auditcommitteehandbook140307.pdf
- "Magenta Book – Guidance Notes on Policy Evaluation", Swyddfa'r Cabinet; http://www.nationalschool.gov.uk/policyhub/magenta_book/index.asp http://www.nationalschool.gov.uk/policyhub/docs/profpolicymaking.pdf
- Cod Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Cyrff Cyhoeddus;
- "Guidelines for Good Practice in Evaluation", Cymdeithas Gwerthuso'r DU; http://www.evaluation.org.uk/resources/guidelines.aspx
- "Code of Practice for Official Statistics" a'i brotocolau cysylltiedig, Awdurdod Ystadegau'r DU; http://www.statisticsauthority.gov.uk/assessment/code-of-practice/code-of-practice-for-official-statistics.pdf
- Comisiwn Iechyd a Diogelwch/Adran yr Amgylchedd a'r Rhanbarthau, "Revitalising Health and Safety"; http://www.hse.gov.uk/strategy/
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- llythyrau "Prif Swyddog Gweithredol" sy'n bodoli;
- llythyrau "Annwyl Swyddog Cyfrifyddu" sy'n bodoli;
- Llythyrau rheoli gan archwilwyr allanol;
- cyfarwyddiadau a chanllawiau perthnasol eraill a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru;
- yr argymhellion hynny gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, Pwyllgorau eraill y Senedd; Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgorau Seneddol eraill neu awdurdod Seneddol sydd wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru sy'n berthnasol i'r corff.

At hynny, wrth gynnal ei fusnes, bydd y corff yn sicrhau, ymhlith ei ddyletswyddau eraill:

- ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw Safonau Cymraeg a osodir ar y corff gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, neu, os na fydd yn rhaid i gorff gydymffurfio â'r Safonau, delerau ei Gynllun Iaith Gymraeg os bydd gan y corff Gynllun Iaith Gymraeg. Os na fydd y cyfryw Gynllun yn bodoli mewn corff, dylai'r corff gydymffurfio â thelerau Safonau'r Gymraeg a nodir yn yr hysbysiadau cydymffurfio a gyflwynir i Weinidogion Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg o bryd i'w gilydd. Gellir gweld copi o'r fersiwn ddiweddaraf ar wefan Comisiynydd y Gymraeg;
- bod ei swyddogaethau yn cael eu harfer mewn modd sy'n cyd-fynd â dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel y'i nodir yn strategaeth Llywodraeth Cymru fel y'i cyhoeddir o bryd i'w gilydd;
- ei fod yn mabwysiadu ac yn cynnal cynllun, a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth, ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;
- bod ei swyddogaethau yn cefnogi'r nodau a'r egwyddorion fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef:

| **Nodau Llesiant** |
|---|
| Cymru lewyrchus |
| Cymru gydnerth |
| Cymru iachach |
| Cymru sy'n fwy cyfartal |
| Cymru o gymunedau cydlynus |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

| **Pum Egwyddor Gweithio** | |
|---|---|
| Hirdymor | Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| Atal | Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| Integreiddio | Ystyried sut y gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ei amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| Cydweithio | Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| Cynnwys | Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu. |

- ei fod yn dilyn yr ymagwedd at fod yn agored a nodir yng Nghod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Fynediad i Wybodaeth;
- ei fod yn rhoi sylw dyledus i God Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar Benodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus;

- fod ei ymarferion caffael yn cael eu cynnal gan roi sylw dyledus i'r egwyddorion a nodir yng Nghynllunydd Llwybrau Caffael Gwerth Cymru a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru;
- O ran bod yn agored, lle y bo'n ymarferol ac yn briodol, disgwylir i'r corff gynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus. Rhaid i o leiaf un cyfarfod y flwyddyn fod yn gyfarfod agored. Lle y bo'n ymarferol ac yn briodol, bydd y corff yn rhyddhau adroddiadau cryno neu'n sicrhau bod cofnodion o'i gyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd.

O ran iechyd, diogelwch a llesiant, rhaid i'r corff wneud y canlynol:

- cydymffurfio â'r holl ddyletswyddau statudol perthnasol o ran iechyd, diogelwch a llesiant fel y maent yn ymwneud â'i holl swyddogaethau, prosiectau, rhaglenni a gweithgareddau;
- mynnu bod sefydliadau a ariennir ganddo ac unrhyw gontractwyr ac is-gontractwyr i'r sefydliadau hynny yn cydymffurfio yn yr un modd;
- cydymffurfio'n llawn â pholisi Llywodraeth y DU ar iechyd, diogelwch a llesiant.

## 18. ATODIAD F - Rhestr wirio o ddogfennau y mae angen i Dribiwnlys Prisio Cymru eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru

| DYDDIAD DISGWYLIEDIG | EITEM |
|---|---|
| 28 Chwefror | Cynllun Gweithredol Drafft |
| 12 Mawrth | Datganiad gwariant diwedd blwyddyn |
| 1 Ebrill | Cynllun Gweithredol Terfynol |
| 30 Medi | Adroddiad Blynyddol |